



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL CYLLID Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Medi 2013

BIL CYLLID Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i Fil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 30 Medi 2013, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

30 Medi 2013

CYNNWYS

Rhan 1

1. Disgrifiad
2. Y cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Yr opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesiad o'r gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – Diffiniad o Dermau

ATODIAD 2 – Cymhwyso'r Ddyletswydd yn Ymarferol

ATODIAD 3 – Crynodeb o'r Mathau o Gostau

ATODIAD 4 – Nodiadau Esboniadol

1. Disgrifiad

1. Mae Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn rhoi cynigion 'Law yn Llaw at Iechyd' Llywodraeth Cymru ar waith er mwyn cyflwyno trefn ariannol fwy hyblyg. Mae'n rhoi dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i fantoli'r gyllideb dros 3 blynedd ariannol dreigl yn hytrach nag yn flynyddol. Mae'r Bil yn creu dyletswydd i'r Byrddau Iechyd Lleol fabwysiadu trefn ariannol i reoli adnoddau, gwariant a therfynau cymeradwy mewn ffordd hyblyg dros gyfnod treigl o 3 blynedd. Bydd hyn yn galluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio eu gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu penderfyniadau am y gweithlu a'u penderfyniadau ariannol a'r broses o roi hynny ar waith dros gyfnod hwy sy'n haws ei drin. Bwriad y Bil yw galluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i wneud penderfyniadau gwell a rhoi'r atebion gorau ar waith, a dileu un o heriau sylweddol y drefn bresennol sy'n hyrwyddo penderfyniadau tymor byr ar sail blwyddyn ariannol.

2. Y cefndir deddfwriaethol

2. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau mewn perthynas â threfnu ac ariannu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

3. Mae paragraff 9 o Ran 1 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y gall y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "Iechyd a Gwasanaethau Iechyd" ac atgynhychir ef isod:

Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw.

Health and health services

9 *Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.*

Exceptions—

Abortion.

Human genetics, human fertilisation, human embryology, surrogacy arrangements.

Xenotransplantation.

Regulation of health professionals (including persons dispensing hearing aids).

Poisons.

Misuse of and dealing in drugs.

Human medicines and medicinal products, including authorisations for use and regulation of prices.

Standards for, and testing of, biological substances (that is, substances the purity or potency of which cannot be adequately tested by chemical means).

Vaccine damage payments.

Welfare foods.

4. Nid oes unrhyw un o ddarpariaethau Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn perthyn i unrhyw un o'r eithriadau a nodwyd yn Rhan 1 o Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 nac yn gymwys fel arall mewn perthynas â Chymru nac yn rhoi, yn gorfodi, yn addasu, neu'n dileu (nac yn rhoi'r pŵer i roi, gorfodi, addasu neu ddileu) swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio mewn perthynas â Chymru; nac yn mynd yn groes i unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7 gan ystyried unrhyw eithriad yn Rhan 3 o'r Atodlen honno i'r cyfyngiadau hynny.

5. Darperir cymhwysedd deddfwriaethol i wneud diwygiadau canlyniadol gan adran 108(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir

Materion

6. Mae GIG Cymru yn wynebu heriau sylweddol o safbwynt gwasanaethau, demograffeg a chyllid, ac o ystyried sefyllfa gyffredinol cyllid cyhoeddus, mae'n annhebyg y bydd twf yn ei gyllid dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r GIG i ystyried pob opsiwn er mwyn penderfynu sut i reoli adnoddau yn y ffordd orau bosibl. Gallai hyblygrwydd ariannol, trwy gyflwyno dyletswydd ariannol dros fwy nag un flwyddyn ariannol yn hytrach nag yn flynyddol, helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.

7. Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Law yn Llaw at Iechyd'¹. Mae'r ddogfen yn cyflwyno gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer gwella iechyd a lles pobl Cymru mewn ffordd gynaliadwy, ac ar gyfer gweddwid gwasanaethau iechyd mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau y gellir cymharu'r canlyniadau â'r gwasanaethau gorau yn y byd. Nodwyd yn 'Law yn Llaw at Iechyd' fod taer angen gweddwid y system ar gyfer darparu gofal iechyd ac ail-fframio'r berthynas â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd. Un o nodweddion amlycaf y system gynllunio bresennol yw'r pwyslais ar gynlluniau blynyddol sy'n canolbwyntio ar dargedau gwasanaethau ac ariannol blynyddol.

8. Un o ganlyniadau ymarferol y dyletswyddau statudol presennol ar Fyrddau Iechyd Lleol yw'r diffyg hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn a'r ffaith y byddai unrhyw orwario, waeth pa mor fach, yn mynd yn groes i Ddyletswydd Ariannol Statudol y Byrddau Iechyd Lleol. Byddai gweithredu'n groes i'r ddyletswydd hon hefyd yn arwain at Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi barn reoleidd-dra amodol ar Gyfrifon y Bwrdd Iechyd Lleol, a gallai hefyd beri risg i'r farn archwilio ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru.

9. Gall diffyg hyblygrwydd y drefn ariannol bresennol dynnu sylw ymdrechion ar ddiwedd y flwyddyn trwy ganolbwyntio ar ofynion arbedion cymharol fach er mwyn cyrraedd y targed ar ddiwedd y flwyddyn yn hytrach na chanolbwyntio ar y strategaeth ariannol tymor canolig a'r Cynllun Integredig ar gyfer cyflawni yn y blynyddoedd ariannol sydd ar ddod. Gall hefyd arwain at ystumio penderfyniadau yn ymwneud â chynlluniau sydd angen buddsoddiad ymlaen llaw i wneud arbedion cylchol, a gall rhai cynlluniau golli eu cyfle i fanteisio oni weithredir yn gynnar iawn yn y flwyddyn ariannol.

10. Mae'r Bil hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon trwy ailddiffinio'r ddyletswydd ariannol statudol o fod yn flwyddyn i fod dros gyfnod treigl o dair blynedd er mwyn cefnogi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig. Bydd y ddeddfwriaeth yn lleihau'r risg o

¹ <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/together/?skip=1&lang=cy>

benderfyniadau tymor byr sy'n seiliedig ar y flwyddyn ariannol, nad ydynt o bosibl er budd hirdymor y sefydliad. Mae'r drefn ariannol bresennol yn hyrwyddo arferion sy'n anghydnaws â sicrhau gwerth da am arian.

Byrddau Iechyd Lleol a Chynllunio Ariannol

11. Caiff Byrddau Iechyd Lleol eu diffinio (yn unol â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol) fel cyrff "Llywodraeth Ganolog" at ddibenion Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau. Maent yn dod o dan adain gyllidebu a chyfrifyddu Llywodraeth Cymru ac yn cael eu rheoli gan Derfynau Adnoddau Blynnyddol.

12. Mae adran 175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn rhoi dyletswyddau ariannol ar Fyrddau Iechyd Lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt *'in respect of each financial year, perform its functions so as to secure that its expenditure which is attributable to the performance by it of its functions in that year (not including its general ophthalmic and pharmaceutical expenditure) does not exceed the aggregate of the amount allotted to it for that year'*. Mae dyletswydd o dan adran 176 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 hefyd yn nodi *'that the use of its resources in a financial year does not exceed the amount specified for it in relation to that year by the Welsh Ministers'*. Deddf gydgrynhoi yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a ddisodlodd y ddeddfwriaeth flaenorol Cymru a Lloegr, sef Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Roedd y dyletswyddau ariannol wedi'u nodi yn adran 97 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Ychwanegwyd adrannau 97F, 97G a 97H i adran 97 trwy Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002, gan osod dyletswyddau ariannol a Therfynau Adnoddau ar Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

13. Nid yw'r gofyniad ar gyfer y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn newydd. Mae eisoes yn bodoli fel rhan o Fframwaith Cynllunio 2013/14 i 2015/16 a gyflwynwyd i sefydliadau'r GIG ar 8 Chwefror 2013. Roedd y Rheolau Sefydlog Enghreifftiol² a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 yn cynnwys y gofyniad canlynol:

"Local Health Boards will prepare a medium-term service and financial strategy. The medium term plans must reflect longer-term planning and delivery objectives and should be continually reviewed based on latest Welsh Government policy and local priority requirements"

Lloegr a'r Alban

14. Yn Lloegr, mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn pennu'r dyletswyddau ariannol blynnyddol, yn debyg i ddyletswyddau Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae cyhoeddiad Trysorlys Ei Mawrhydi, *'Improving Spending Control'*³ (Ebrill 2012) yn nodi: *'Good business planning is an essential part of managing spending. Each public*

²<http://www.nhswalesgovernance.com/display/Home.aspx?a=427&s=11&m=200&d=0&p=201>

³<https://www.gov.uk/government/publications/improving-spending-control>

sector organisation should plan to use the limited budget that it has to achieve good value for money and ensure that efficient and sustainable choices are made about how public funds are used'. This means keeping an eye on the medium and long term picture, re-assessing risks and evaluating alternative ways of achieving policy objectives'.

15. Yn 2012, cyhoeddodd Adran Iechyd Gweithrediaeth yr Alban y ddogfen, 'Local Delivery Plan Guidance 2013/14'⁴, sy'n dangos newid cyfeiriad tuag at gynlluniau integredig gwell a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Argymhellion Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol

16. Mae Pwyllgor Cyllid⁵, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol⁶ a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd deddfwriaethol i gefnogi fframwaith cynllunio mwy hyblyg ar gyfer y GIG, gan gynnwys rheoli eu cyllid ar draws blynyddoedd ariannol.

Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru

17. Roedd adroddiad Cyllid Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012⁸ yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

“A6: Mae cyfundrefn cyfrifyddu adnoddau'r GIG yn canolbwyntio yn y byrdymor ar fantoli'r gyllideb ym mhob blwyddyn ariannol. Mae hyn o bosibl yn ei gwneud hi'n anodd i gyrrff y GIG greu cronfeydd i fuddsoddi mewn gwaith trawsnewid a newid er mwyn cyflawni arbedion mewn blynyddoedd i ddod. O fewn y fframwaith cyfrifyddu adnoddau presennol, dylai Llywodraeth Cymru asesu'r gofyniad presennol i fyrddau iechyd fantoli'r gyllideb bob blwyddyn, a datblygu opsiynau a fyddai'n galluogi cyrrff y GIG i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio lle mae'r rhain yn debygol o gyflawni arbedion yn y dyfodol a'u galluogi i fantoli'r gyllideb dros gyfnod hwy.”

Y Trefniadau Presennol

Sut mae adnoddau'n cael eu dyrannu i Fyrddau Iechyd Lleol ar hyn o bryd

18. Dyrennir adnoddau i'r Byrddau Iechyd Lleol gan amlaf trwy gyhoeddi Dyraniadau Refeniw (ar ôl i'r Cynulliad gymeradwyo'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol) sy'n pennu'r Terfyn Adnoddau Refeniw a'r Terfyn Arian Parod. Bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn gwybod na allant wario mwy na'r Terfyn

⁴ <http://www.scotland.gov.uk/Publications/2012/12/8405>

⁵ <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=1366>

⁶ <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=2254>

⁷ <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=5801>

⁸ www.wao.gov.uk/assets/.../NHS_Finances_167A2012_Welsh_2.pdf

Adnoddau Refeniw, a byddant yn tynnu arian parod i lawr yn rheolaidd gydol y flwyddyn yn erbyn y Terfyn Arian Parod er mwyn talu costau'r alldaliadau.

Dyraniadau Refeniw

19. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dogfen dyraniad refeniw blynyddol i'r Byrddau Iechyd Lleol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol. Fel arfer, gwneir hyn yn fuan ar ôl i'r Cynulliad basio'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol (ganol mis Rhagfyr fel arfer).

20. Cyflwynir y llythyr dyraniad yn unol ag adran 174 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae'r llythyr dyraniad yn disgrifio Terfyn Adnoddau cychwynnol pob Bwrdd Iechyd Lleol. Fe'i cyflwynir fel arfer gyda llythyr Gweinidogol i Gadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol, gyda llythyr eglurhaol manylach ac atodlenni a nodiadau manwl gan Brif Weithredwr GIG Cymru ar gyfer Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol.

21. Mae Dyraniad Refeniw pob Bwrdd Iechyd Lleol yn seiliedig ar elfen reolaidd Dyraniad Refeniw y flwyddyn flaenorol gyda neu heb unrhyw newidiadau hysbysedig. Gallai'r newidiadau hysbysedig gynnwys rhagor o ddileu a throsglwyddo adnoddau.

22. Nid yw holl gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi yn y llythyr dyrannu refeniw cychwynnol. Ychwanegir nifer o ffrydiau ariannu eraill at y dyraniad refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn ogystal â'r dyraniadau refeniw uniongyrchol, mae sefydliadau'r GIG hefyd yn derbyn ffrydiau ariannu eraill ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu hanfonebu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

23. Mae Dyraniad Refeniw y Byrddau Iechyd Lleol yn cynnwys Terfyn Adnoddau Refeniw a Therfyn Arian Parod. Mae'r Terfyn Arian Parod yn derfyn gweinyddol a bennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'i Chwmpas, ac nid yw'n ofyniad cyfreithiol. Mae'r Terfyn Adnoddau yn adlewyrchu'r cyfanswm a "ddyrannewyd" gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd Lleol (yn ôl terminoleg adran 174/175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006). Fel y gwelir isod, defnyddir y Terfyn Adnoddau fel sylfaen prif ddyletswydd statudol y Byrddau Iechyd Lleol. Y Terfyn Arian Parod yw cyfanswm yr arian parod y gall Byrddau Iechyd Lleol ei dynnu i lawr oddi wrth Lywodraeth Cymru yn erbyn eu Terfyn Adnoddau (adran 174 1(b))

24. Fel arfer, y prif wahaniaeth rhwng terfynau adnoddau a therfynau arian parod yw cyllid ar gyfer dibrisiant a chostau eraill nad ydynt yn arian parod. Dyma'r costau a ysgwyddir gan y Byrddau Iechyd Lleol ac sy'n daladwy yn erbyn eu costau gweithredu gros a net. Mae gofyn iddynt gael terfyn adnoddau digonol ar eu cyfer, ond gan nad ydynt yn gwneud unrhyw daliadau arian parod gwirioneddol, nid oes angen terfyn arian parod arnynt.

25. Ar ôl i'r Byrddau Iechyd Lleol dderbyn y dyraniad cychwynnol, mae'n cael ei ddiweddarau gydol y flwyddyn (terfynau adnoddau ac arian parod) er mwyn cyhoeddi cyllid yn ystod y flwyddyn. Y dyraniad hysbysedig terfynol yw'r terfyn adnoddau a ddefnyddir o fewn y mesur i gadarnhau bod y sefydliad wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol o safbwynt "Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol" fel y'i nodir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y Cyfrifon Blynyddol statudol.

Dyraniadau Cyfalaf

26. Yn wahanol i'r dyraniadau refeniw, nid yw'r dyraniadau cyfalaf ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau yn cael eu cyhoeddi mewn dogfen ffurfiol. Fel arfer, bydd dyraniadau cyfalaf yn cynnwys:

- Dyraniad disgrisiynol i alluogi Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i wneud mân waith a newid cyfarpar;
- Dyraniad gan Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan ar gyfer prif gynlluniau cyfalaf.

27. Bydd dyraniadau cyfalaf yn amrywio gydol y flwyddyn ariannol, ac o un flwyddyn ariannol i'r llall, i adlewyrchu cynnydd yn erbyn prif gynlluniau cyfalaf. Hysbysir sefydliadau unigol am ddyraniadau yn ffurfiol trwy gyhoeddi Terfyn Adnoddau Cyfalaf, sy'n debygol o gael ei ddiwygio a'i ailgyhoeddi gydol y flwyddyn wrth i ddyraniadau cyfalaf gael eu hamrywio yn unol â chynnydd a phroffiliau diweddaraf y prif gynlluniau cyfalaf. Mae darpariaethau adrannau 175 a 176 yn gymwys i Ddyraniadau Refeniw a Dyraniadau Cyfalaf.

Diben y Ddeddfwriaeth

28. Amcan cyffredinol y ddeddfwriaeth yw gwella canlyniadau iechyd pobl Cymru (yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir) trwy dargedu cyllid y GIG ar gyfer gwasanaethau ac ymyriadau sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

29. Diben y Bil hwn yw gwneud darpariaeth mewn perthynas â dyletswyddau ariannol Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na'i gyllid dros gyfnod o dair blynedd yn hytrach nag ar gyfer un flwyddyn ariannol.

30. Bydd hyblygrwydd o fewn cyfnod treigl o dair blynedd yn caniatáu i'r Byrddau Iechyd Lleol ganolbwyntio eu gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu penderfyniadau am y gweithlu a'u penderfyniadau ariannol dros gyfnod hwy, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at benderfyniadau gwell a'r atebion gorau gan Fyrddau Iechyd Lleol. Bydd hefyd yn dileu un o heriau sylweddol y drefn bresennol sy'n hyrwyddo penderfyniadau tymor byr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nad ydynt o bosibl er budd y sefydliad yn y tymor hir. I ategu hyn, mae angen fframwaith, swyddogaeth a gwasanaeth ariannol aeddfed ac ymatebol sy'n sylfaen i weddnewid gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy.

31. Mae'r newid allweddol i'r fframwaith deddfwriaethol presennol wedi'i nodi yn Adran 2 o'r Bil. O dan yr adran hon, bydd y dyletswyddau ariannol a nodir yn adran 175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn cael eu disodli gan ddyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau, mewn cyfnod treigl o 3 blynedd, nad yw ei wariant cyfanredol yn fwy na'i derfynau cymeradwy cyfanredol. Mae'r ddyletswydd ariannol allweddol hon yn cael ei mesur, ei hadrodd a'i harchwilio trwy Gyfrifon Blynyddol y Bwrdd Iechyd Lleol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Nodyn Datgelu Dyletswydd Ariannol.

32. Mae adran 176 "Terfynau Adnoddau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol" yn cael ei diddymu gan nad oes ei hangen mwyach. Adran 176 a gyflwynodd y term 'Terfynau Adnoddau' fel rhan o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Hyd at hynny, câi trafodion ariannol yn adrannau'r Llywodraeth a'r GIG eu casglu a'u cofnodi ar sail 'arian parod', ac yn dilyn cyflwyno cyfrifyddu 'adnoddau' yn y sector cyhoeddus roedd gofyn gwahaniaethu rhwng adrodd ar sail arian parod ac adrodd ar sail cronïadau (adnoddau).

33. Nid oes angen gwahaniaethu fel hyn mwyach gan fod pob 'gwariant' yn cael ei gofnodi a'i adrodd ar sail cronïadau, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. O ganlyniad, mae'r darpariaethau yn Adran 175 a oedd yn cyfeirio at 'wariant' yn cwmparu'r gofynion a oedd yn rhan o Adran 176, a oedd yn cyfeirio at 'Adnoddau'.

Newidiadau i'r trefniadau presennol ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol a'r risgiau i Gyllideb yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

34. Mae'r newid yn nyletswydd ariannol y Byrddau Iechyd Lleol o ddyletswydd flynyddol i ddyletswydd dreigl 3 blynedd yn ymwneud ag amseru nid â chyfanswm y gofynion adnoddau sydd eu hangen i gyfateb i wariant dros y tair blynedd. Er gwaethaf y newid i ddyletswydd ariannol y Byrddau Iechyd Lleol, mae'n parhau'n ofynnol i'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol reoli adnoddau cyfunol GIG Cymru a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn terfynau dyraniad cyllidebol blynyddol y Prif Grŵp Gwariant y darperir ar ei gyfer trwy'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol. Mae'n rhaid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael bob blwyddyn ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer yr holl wariant a gynlluniwyd, a fydd yn cynnwys gwariant a Therfynau Adnoddau y Byrddau Iechyd Lleol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw hyblygrwydd sy'n deillio o'r Bil. Dylid nodi na all yr hyblygrwydd ariannol hwn fod yn gwbl benagored ac y bydd angen ei reoli o fewn y cyfyngiad hwn. Bydd yr adnoddau sydd ar gael yng nghyllideb yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ffactor cyfyngol allweddol o safbwynt yr hyblygrwydd ariannol sydd ar gael dros gyfnod treigl o 3 blynedd.

35. Dau brif ddull Llywodraeth Cymru o reoli gwariant yw: Cyfanswm Terfynau Gwariant a Reolir y Trysorlys a rheolaethau cwmpas y cynnig cyllidebol cyfreithiol sy'n destun pleidlais yn y Cynulliad bob blwyddyn. Mae'n rhaid i'r adnoddau a ddyrennir i'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ac i'r

Byrddau Iechyd Lleol wedyn) neu i unrhyw bortffolio Gweinidogol arall gael eu rheoli o fewn y ddwy gyfundrefn reoli hyn.

36. Os yw Bwrdd Iechyd Lleol yn gwario, neu'n bwriadu gwario, mwy na'i derfyn adnoddau mewn unrhyw flwyddyn, mae'n rhaid sicrhau bod digon o adnoddau yng Nghyfanswm Terfynau Gwariant a Reolir Cymru (gan gynnwys y rheolaethau terfynau adnoddau unigol) a'r adnoddau y pleidleisir arnynt drwy'r Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad. Gallai'r ddeddfwriaeth ychwanegu at y risg y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd yn groes i gyfyngiadau'r Trysorlys a/neu'r gyllideb gyfreithiol, gan arwain at oblygiadau difrifol i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, byddai goblygiadau i sefyllfa lle mae Byrddau Iechyd Lleol yn cynllunio neu'n achosi gorwariant mewn unrhyw flwyddyn yn erbyn eu Terfynau Adnoddau ac na ellir gwneud iawn am hyn (gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y lle cyntaf ac wedyn gan Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd).

37. Os na fyddai modd cyfyngu'r gorwariant o fewn terfynau'r adnoddau cyffredinol a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru gan Drysorlys Ei Mawrhydi neu'r terfynau y pleidleisiwyd arnynt yn y Cynnig Cyllidebol, byddai cyfrifon Llywodraeth Cymru yn amodol, felly byddai unrhyw wariant yn afreolaidd a byddai angen ei reoleiddio fel a ganlyn:

- O safbwynt mynd yn groes i'r cynnig cyllidebol cyffredinol, byddai angen rheoleiddio hyn trwy weithdrefn bleidleisio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Pe bai terfynau Trysorlys Ei Mawrhydi ar fin cael eu torri mewn unrhyw flwyddyn, gallai Llywodraeth Cymru wneud cais ymlaen llaw am arian wrth gefn o Gronfa Gyfunol y DU.
- Pe bai terfynau'r Trysorlys yn cael eu torri ac nad oedd unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu o Gronfa Wrth Gefn y DU, o dan ganllawiau'r gyllideb byddai'n rhaid i'r Prif Weinidog/y Gweinidog Cyllid hysbysu Prif Ysgrifennydd y Trysorlys. Byddai angen disgrifio amgylchiadau'r torri terfynau ac amlinellu'r mesurau y bwriedid eu cymryd i unioni'r sefyllfa. Byddai'r Trysorlys yn debygol o adennill unrhyw orwariant o gyllideb Bloc Cymru y flwyddyn ganlynol.

38. Bydd goblygiadau ariannol arwyddocaol yn deillio o unrhyw fethiant gan Lywodraeth Cymru i gadw o fewn terfynau ei hadnoddau. O dan Gyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, fel arfer mae arian yn dilyn adnoddau cymeradwy pan fydd ei angen. Byddai gorwariant arwyddocaol heb adnoddau wrth gefn cymeradwy yn golygu na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu tynnu digon o arian i lawr (o dan reolaethau terfynau arian y Trysorlys) i Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y gorwario. O ganlyniad, byddai cyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y GIG, heb adnoddau ariannol digonol i dalu'r biliau neu gostau'r gyflogres.

Sanctsiynau: goblygiadau ariannol, cyfreithiol neu oblygiadau eraill diffyg cydymffurfiaeth

39. Bydd y newid deddfwriaethol i drefn o ddyletswydd ariannol dreigl o dair blynedd yn cael ei gefnogi gan ofyniad - trwy newidiadau i Gyfarwyddiadau a

Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog – i Fyrddau Iechyd Lleol ddatblygu Cynlluniau Gwasanaeth Tymor Canolig Integredig 3 blynedd wedi’u cymeradwyo gan eu Bwrdd cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Byddai angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo’r cynllun hefyd. Byddai’r gofyniad hwn yn disodli’r gofyniad mwy cyfyngedig presennol i Fyrddau gymeradwyo Cynlluniau Cyflawni Lleol, gan gynnwys cymeradwyo Cynlluniau Ariannol blynyddol cytbwys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae’r broses gynllunio lefel uchel yn cael ei disgrifio yn **Atodiad 2**.

40. O dan y trefniadau cynllunio newydd, byddai gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru graffu ar y cynlluniau a’u cymeradwyo bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y broses gynllunio yn gadarn ac yn cydymffurfio â’r amcanion polisi. Bydd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i weithredu o fewn y terfynau gwariant blynyddol, ac mae’n rhaid iddi reoli yn unol â’r gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd i Brif Grŵp Gwariant yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad, byddai unrhyw hyblygrwydd a ddarparwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol yn gorfod cael ei reoli a’i gymeradwyo o fewn y terfynau hyn. Mae hyn yn atgyfnerthu’r gofyniad ar gyfer y broses ffurfiol o adolygu a chymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cytbwys o fewn Llywodraeth Cymru.

41. Mae pwerau cyfarwyddo wedi’u nodi yn adran 175 (2) a (6) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 ac nid yw’r Bil hwn yn eu newid.

Y Pwerau Ymyrryd Ffurfiol Presennol – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

42. Mae pwerau ymyrryd ar gael i Lywodraeth Cymru trwy adrannau 26-28. Mae modd defnyddio’r pwerau hyn os credir bod Bwrdd Iechyd Lleol yn methu cyflawni un neu fwy o’i swyddogaethau. O dan rai amgylchiadau, gellir eu defnyddio i atal neu ddileu pwerau a swyddogaethau.

Llythyr Penodi a Memorandwm Swyddog Atebol

43. Adeg ei benodi bydd pob Prif Weithredwr yn derbyn Memorandwm Swyddog Atebol a llythyr gan Brif Weithredwr GIG Cymru. Mae’r Memorandwm yn diffinio cyfrifoldeb y Swyddog Atebol ym mhob un o sefydliadau’r GIG am reolaeth ariannol/perfformiad.

44. Mae’r Memorandwm yn datgan yn glir bod Swyddog Atebol pob sefydliad GIG yn atebol yn uniongyrchol i Brif Weithredwr GIG Cymru am yr holl faterion perfformiad ariannol (a’r holl faterion eraill yn ymwneud â pherfformiad) sydd wedi’u dirprwyo i’r sefydliad. Maent yn atebol iddo yn rhinwedd ei swydd fel Is-Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

45. Mae Prif Weithredwr GIG Cymru yn gallu dileu pwerau’r Swyddog Atebol os nad yw’n cyflawni’r dyletswyddau a ddirprwywyd.

Lefelau Dwysáu’r Fframwaith Cyflawni

46. Mae'r Fframwaith Cyflawni yn nodi fframwaith clir ar gyfer cymorth, dwysáu ac ymyrraeth:

Lefel Ddwysáu	Cam Gweithredu
1.	Byrddau Iechyd Lleol/Ymddiriedolaethau yn gyfrifol am gamau unioni er mwyn ymateb i feysydd o fethiant. Llywodraeth Cymru yn nodi'r gofynion monitro ychwanegol. Cynlluniau'n cael eu cyflwyno i unioni'r sefyllfa yn syth.
2.	Llywodraeth Cymru yn cychwyn ymyrraeth yr Uned Cyflenwi a Chymorth a/neu ymyrraeth arall. Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyflenwi a Chymorth (neu ymyrraeth arall a nodir gan Lywodraeth Cymru) yn helpu i benderfynu pa newidiadau sydd eu hangen yn yr Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd Lleol i gyflawni canlyniadau gofynnol trwy gyfarfodydd/galwadau rheolaidd.
3	Codi'r materion gyda Phrif Weithredwr GIG Cymru. Cyfarfod yn ofynnol rhwng Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Lleol, Prif Swyddog Gweithredol y GIG a/neu Ddirprwy Brif Weithredwr y GIG i bennu'r gofynion a chamau gweithredu'r dyfodol.
4.	Prif Weithredwr y GIG i bennu'r camau gweithredu gofynnol, a allai gynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod yn ofynnol gyda'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol, Ysgrifennydd y Bwrdd a Swyddogion Gweithredol perthnasol. • Cyflwyno trefniadau 'mesurau arbennig'. • Adolygu effeithiolrwydd gweithredwyr. • Adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd. • Diddymu ffrydiau ariannu priodol.

Nodyn: Mae **Atodiad 2** yn disgrifio defnydd ymarferol o'r fframwaith cyflawni.

47. Fel sylfaen i'r ddeddfwriaeth, bydd Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 049 "Dyletswydd Ariannol Statudol Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol" yn cael ei ddisodli gan Gyfarwyddyd Gweinidogol sy'n pennu'r gofynion a'r lefelau dwysáu newydd. Bydd y lefelau dwysáu ac ymyrryd yn cydymffurfio â'r rhai a nodir yn y Fframwaith Cyflawni.

Yr Effaith ar Fyrdau Iechyd Lleol a Swyddfa Archwilio Cymru

48. Bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar Fyrdau Iechyd Lleol gan fod y Bil yn rhoi dyletswydd arnynt i fantoli'r gyllideb dros 3 blynedd ariannol dreigl yn hytrach nag yn flynyddol. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn parhau i archwilio cyfrifon blynyddol y Byrddau Iechyd Lleol a chyhoeddi Tystysgrif ac Adroddiad ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol o ganlyniad i'r ddyletswydd.

49. Ni fydd Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu heffeithio gan eu bod wedi'u cynnwys o dan Atodlen 4 i Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Mae'r sefyllfa ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn wahanol gan nad ydynt yn gweithredu o fewn Trefn Cyfrifyddu Adnoddau. Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 049 yn nodi'r gofyniad ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG: *'NHS Trusts should achieve a breakeven position in each and every financial year. Breakeven should be achieved without the requirement for any additional cash loans or financial support from the Welsh Assembly Government.'*

50. Aeth Gweinidogion Cymru ati i amodi hyn trwy gyflwyno lefel perthnasedd o'r lleiaf o £0.5m neu 0.5% o incwm gweithredol Ymddiriedolaeth y GIG am y flwyddyn. Disgwylir i Ymddiriedolaeth sicrhau bod unrhyw orwariant sydd o fewn ei therfyn perthnasedd yn cael ymgorffori o fewn ei Chronfa Incwm a Gwariant. Neu, os nad yw hynny'n bosibl, rhaid adennill y gorwariant yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

51. Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 hefyd yn darparu dyletswyddau ariannol ar gyfer Awdurdodau Iechyd Arbennig. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru yn unig, ond mae Awdurdodau Iechyd Arbennig ar y cyd yng Nghymru a Lloegr ac mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn gymwys iddynt.

Cynllun gweithredu a chyflawni

52. Fel rhan o'r gwaith o gyflwyno 'Law yn Llaw at Iechyd', mae Llywodraeth Cymru wedi pennu Trefn Ariannol sy'n cynnwys fframwaith i symud o rwystrau a chyfyngiadau'r cylch cynllunio ariannol blynyddol presennol i Gynlluniau Ariannol Tymor Canolig o fewn fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig. Mae hyblygrwydd ariannol sy'n alinio adnoddau â chynlluniau 3 blynedd cytbwys yn rhan allweddol o'r broses hon, a nod y Bil yw dileu'r cyfyngiad deddfwriaethol presennol ar y ddyletswydd ariannol flynyddol a chyflwyno fframwaith deddfwriaethol priodol sy'n cefnogi amcan cyffredinol o ddarparu hyblygrwydd ariannol er mwyn cynnal cynlluniau tymor canolig cynaliadwy.

53. Mae pwysigrwydd system gynllunio gadarn ar gyfer GIG Cymru yn cael ei gydnabod yn eang, ac mae gofynion cynllunio wedi'u pennu ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau. Ymysg y gofynion roedd creu Cynllun Tymor Canolig wedi'i gytuno gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2013, sy'n nodi sut bydd adnoddau (ariannol, gweithlu ac ystâd) yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon er mwyn:

- mynd i'r afael â'r meysydd lle mae anghenion iechyd gan y boblogaeth leol;
- gwella ansawdd y gofal;
- cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol.

54. Mae adroddiadau diweddar gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru - ar aeddfedrwydd Byrddau Iechyd Lleol ac, yn fwy

diweddar, ar Gyllid y GIG - wedi cyfeirio at yr angen i wella'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r holl asesiadau yn amlygu dau beth:

- yr angen i gryfhau trefniadau cynllunio a chraffu Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau;
- yr angen i sicrhau bod craffu, herio a chymorth cenedlaethol digonol ar gael, yn enwedig pan fydd trefniadau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau yn cael eu cryfhau.

Amserlen

55. Rhagwelir y bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2014. Bydd y Bil yn dod i rym o 1 Ebrill 2014.

56. Bydd angen i'r fframwaith Cynllunio Integredig sy'n sylfaen i'r newid yn y ddeddfwriaeth i ddyletswydd ariannol 3 blynedd a'r diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (gweler Atodiad 3) fod ar waith pan ddaw'r ddeddfwriaeth newydd i rym. Bydd amserlen y gwaith cynllunio fel a ganlyn:

Cam Gweithredu	Dyddiad
Llywodraeth Cymru a'r GIG yn datblygu Fframwaith Cynllunio Integredig	Mehafin - Medi 2013
Cymeradwyo'r Fframwaith Cynllunio Integredig	Diwedd Medi 2013
Cyflwyno'r Fframwaith Cynllunio Integredig i'r GIG	Hydref 2013
Sefydliadau'r GIG yn datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2014/15 yn unol â'r Fframwaith Cynllunio Integredig	Hydref – Rhagfyr 2013
Byrddau Sefydliadau'r GIG yn cymeradwyo'r cynlluniau	Ionawr 2014
Sefydliadau'r GIG yn cyflwyno cynlluniau i Lywodraeth Cymru	Ionawr 2014
Proses graffu Llywodraeth Cymru	Chwefror - Mawrth 2014
Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru	Cyn 31 Mawrth 2014

Trefniadau Pontio

57. Yn ystod dwy flynedd gyntaf y Bil, h.y. 2014-15 a 2015-16, ni fydd unrhyw brawf 'dyletswydd ariannol statudol' ffurfiol. O ganlyniad, ni fydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno barn archwilio, ond defnyddir y prawf o 2016-17 ymlaen, a bydd yn cael ei archwilio. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno terfynau adnoddau blynyddol gyda phob Bwrdd Iechyd Lleol. Gan na fydd unrhyw brawf dyletswydd ariannol statudol ar waith yn y blynyddoedd hyn, ni fydd Byrddau Iechyd Lleol sy'n methu cadw at derfynau costau Llywodraeth Cymru yn wynebu barn archwilio 'rheoleidd-dra' amodol. Fodd bynnag, byddai sefyllfa o'r fath yn arwain at adroddiad naratif sylweddol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r posibilrwydd o ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Byddai unrhyw weithdrefnau dwysáu perthnasol hefyd yn cael eu rhoi ar waith.

Rhychwant tiriogaethol

58. Mae'r Bil yn gymwys i Gymru.

4. Ymgynghori

Ymgynghori â sefydliadau'r GIG ar gynigion ar gyfer dyletswydd ariannol dros 3 blynedd ariannol

59. Er na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y cynnig deddfwriaethol, mae'r ddyletswydd statudol flynyddol ar Fyrddau Iechyd Lleol wedi bod yn bwnc trafod yn y GIG a'r rhwydwaith o randdeiliaid ehangach. Yn benodol, sefydlwyd Grŵp ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r GIG yn 2012 i ystyried hyblygrwydd ariannol. Cyflwynodd y grŵp adroddiad i Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG ym mis Rhagfyr 2012. Roedd argymhellion y Grŵp yn cynnwys Hyblygrwydd Ariannol i gefnogi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, adolygu deddfwriaeth i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol a sicrhau llywodraethu a disgyblaeth gadarn, a dull broceriaeth i alluogi cyrff y GIG i gefnogi ei gilydd.

60. Mae gwaith ar newidiadau ehangach i Drefn Ariannol y GIG wedi'i gyflwyno i Grwpiau Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Cyllid a Chyfarwyddwyr Cynllunio'r GIG, ac wedi'i gefnogi ganddynt. Cyfeiriwyd at y gwaith hwn yn y ddogfen strategol 'Law yn Llaw at Iechyd', ac mae'n cynnwys Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys Cynlluniau Integredig, Hyblygrwydd Ariannol, Dyrannu Adnoddau, Gwybodaeth Ariannol a Gwybodaeth Gyflawni, a Sicrwydd a Llywodraethu Integredig. Roedd y thema Hyblygrwydd Ariannol yn cynnwys argymhelliad i geisio sicrhau newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyllid Byrddau Iechyd Lleol.

Ymgysylltu â Byrddau Iechyd Lleol a Swyddfa Archwilio Cymru

61. Ymgynghorwyd â'r Byrddau Iechyd Lleol a Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn pennu costau a manteision y ddeddfwriaeth. Ymatebodd Swyddfa Archwilio Cymru a phob un o'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol i'r ymgynghoriad.

62. Mae opsiynau posibl ar gyfer y ddeddfwriaeth wedi'u trafod yn fanwl â Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r ddyletswydd dreigl 3 blynedd yn fesur ôl-weithredol, ac mae'r dull o archwilio'r Cyfrifon Blyneddol, a'i oblygiadau, wedi'u hystyried yn fanwl a'u trafod â staff Swyddfa Archwilio Cymru.

5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

63. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

64. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar gyfer y Bil, yn unol â Rheol Sefydlog 26.6, ac mae'n dilyn yn Rhan 2.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Yr Opsiynau

65. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn gwahanol mewn perthynas ag amcanion polisi'r Bil. Caiff y ddau opsiwn eu dadansoddi gan ystyried i ba raddau y byddent yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, ac mae'r risgiau, y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r ddau opsiwn yn cael eu nodi ym Mhennod 8. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r canpunt agosaf, ac mae'n bosibl na fydd rhai o'r cyfansymiau'n cyfateb oherwydd hynny.

66. Yr opsiynau yw naill ai newid y ddyletswydd ariannol ar Fyrddau Iechyd Lleol neu beidio â gwneud hynny:

- **Opsiwn 1 – peidio â gwneud dim a defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n darparu dyletswydd ariannol flynyddol, gyda gwariant blynyddol heb fod yn fwy na'r terfyn adnoddau blynyddol, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig a chynllunio ariannol tymor canolig.**
- **Opsiwn 2 – cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn golygu bod y ddyletswydd ariannol flynyddol yn cael ei disodli gan ddyletswydd ariannol dreigl o dair blynedd, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig a chynllunio ariannol tymor canolig.**

Opsiwn 1 – peidio â gwneud dim a defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n darparu dyletswydd ariannol flynyddol, gyda gwariant blynyddol heb fod yn fwy na'r terfyn adnoddau blynyddol, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig a chynllunio ariannol tymor canolig.

67. Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at:

- Y drefn bresennol yn darparu'r ddyletswydd ariannol fel dyletswydd flynyddol ar gyfer gwariant blynyddol heb fynd dros ben y terfyn adnoddau blynyddol.
- Archwilwyr allanol yn rhoi barn reoleidd-dra ar y ddyletswydd ariannol flynyddol – a gafodd y ddyletswydd hon ei chyflawni ai peidio (heb ei chyflawni – gwariant yn fwy na'r terfyn adnoddau).
- Cyhoeddi Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau gymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig cytbwys.
- Cyhoeddi Fframwaith Cynllunio Integredig sy'n cynnwys cynlluniau tymor canolig integredig a chynlluniau ariannol tymor canolig, gan gynnwys gofynion, canllawiau, atodlenni ac amserlen.

68. O dan yr opsiwn hwn, mae'r ddeddfwriaeth a'r archwiliad yn canolbwyntio ar y gofynion blynyddol, h.y. elfennau tymor byr yn hytrach nag elfennau tymor canolig/hirdymor. Fodd bynnag, mae cyfarwyddiadau, Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn canolbwyntio ar y cynlluniau Tymor Canolig. Mae hyn yn rhoi neges gymysg i sefydliadau, sef bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am Gynlluniau Tymor Canolig, ond bod dyletswydd ariannol flynyddol yn gymwys o hyd.

69. Byddai Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn parhau i gydymffurfio â'r dyletswyddau ariannol presennol a nodwyd yn adran 175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau gyflawni eu swyddogaethau bob blwyddyn ariannol mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw eu gwariant, a briodolir i sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau yn y flwyddyn honno, yn fwy na'r swm a ddyrannwyd iddynt y flwyddyn honno. Mae adran 176 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 hefyd yn nodi na ddylai unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol ddefnyddio mwy o adnoddau na'r hyn a ddyrannwyd iddo gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys y dull sy'n cael ei ddefnyddio yn Opsiwn 2, ar gyfer paratoi Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig fel rhan o Gynlluniau Canolig Integredig Byrddau Iechyd Lleol.

70. Mae Opsiwn 1 wedi'i ddiystyru oherwydd anghydbwysedd gofynion y Ddyletswydd Ariannol Flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig yr un hyblygrwydd ariannol â'r ddyletswydd i ymgymryd â threfn dreigl 3 blynedd, ac o ganlyniad byddai'n anfon negeseuon cyferbyniol at Fyrddau Iechyd Lleol ynglŷn â'u rhwymedigaethau a'u dyletswyddau.

71. Gan fod yr opsiynau yn cael eu hasesu yn erbyn y nod polisi o hyblygrwydd ariannol er mwyn cefnogi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig, nid yw'r opsiwn o wneud dim yn ddilys. Y rheswm am hyn yw bod y ddyletswydd bresennol yn parhau i osod cyfyngiad deddfwriaethol ar Fyrddau Iechyd Lleol, ac mae'n hyrwyddo penderfyniadau tymor byr sy'n seiliedig ar y flwyddyn ariannol, nad ydynt o fudd hirdymor i'r sefydliad o bosibl.

72. Dyma anfanteision allweddol yr opsiwn hwn:

- Nid yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion wedi'u halinio, sy'n arwain at anghysondeb a dryswch ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol.
- Nid yw'n darparu'r hyblygrwydd ariannol llawn a ddeuai yn sgil newid y gofyniad cynllunio a newid y ddyletswydd ariannol.
- Nid yw'n cryfhau'r nod o gyflawni ymrwymadau Law yn Llaw at Iechyd gan nad yw'n cefnogi'r agwedd ehangach at y broses gynllunio integredig sy'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

Opsiwn 2 – cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn golygu bod y ddyletswydd ariannol flynyddol yn cael ei disodli gan ddyletswydd ariannol dreigl o dair blynedd, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig a chynllunio ariannol tymor canolig

73. Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at:

- Greu dyletswydd ariannol dreigl o dair blynedd.
- Archwiliad allanol yn rhoi barn reoleiddiol ar y ddyletswydd ariannol dreigl 3 blynedd – a gafodd y ddyletswydd hon ei chyflawni ai peidio (heb ei chyflawni – gwariant cyfanredol yn fwy na'r terfyn adnoddau cyfanredol am y 3 blynedd).
- Cyhoeddi Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau gymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig cytbwys.
- Cyhoeddi Fframwaith Cynllunio Integredig sy'n cynnwys cynlluniau tymor canolig integredig a chynlluniau ariannol tymor canolig, gan gynnwys gofynion, canllawiau, atodlenni ac amserlen.

74. Nod y Bil yw newid dyletswyddau ariannol presennol Byrddau Iechyd Lleol o dan adrannau 175 a 176 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a rhoi yn eu lle ddyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau, mewn cyfnod treigl o 3 blynedd, nad yw ei wariant cyfanredol yn fwy na'i derfyn hysbysedig terfynol cyfanredol yn y cyfrifon blyneddol.

Tabl 1. Enghraifft o Ddyletswydd Ariannol Dreigl 3 Blynedd

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Asesiad o'r Ddyletswydd Ariannol						
Cyfnod Treigl 3 Blynedd			X			
				X		
					X	
						X

75. O dan y ddyletswydd dreigl 3 blynedd, cynhelir yr asesiad cyntaf ar ddiwedd 2016/17. Enghraifft o sut bydd y ddyletswydd newydd yn gweithredu:

Tabl 2. Perfformiad Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu 3 blynedd sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017

	2014/15	2015/16	2016/17	Swm Cyfanredol
Costau gweithredu net	X1	X2	X3	X1+x2+x3
Terfyn Gwariant Refeniw	Y1	Y2	Y3	Y1+Y2+Y3
Tanwariant/(gorwariant) yn erbyn y Terfyn Gwariant Refeniw				=(Y1+Y2+Y3) -(X1+X2+X3)

Nodyn: Mae gweithdrefn debyg yn berthnasol i asesu'r ddyletswydd ariannol gyfalaf

8. Costau a manteision

76. Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad o gostau a manteision yr opsiynau a drafodwyd yn Adran 7. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys yr hyn y mae angen i Lywodraeth Cymru ei wneud i gyflwyno cynlluniau ariannol tymor canolig ar gyfer y ddau opsiwn. I gynorthwyo â'r dadansoddiad, gofynnwyd i'r Byrddau Iechyd Lleol a Swyddfa Archwilio Cymru lunio eu hamcangyfrif gorau o gostau'r ddau opsiwn a'r manteision sy'n gysylltiedig â chynllunio ariannol tymor canolig.

Costau

Opsiwn 1 – peidio â gwneud dim a defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n darparu dyletswydd ariannol flynyddol, gyda gwariant blynyddol heb fod yn fwy na'r terfyn adnoddau blynyddol, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig.

77. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau presennol, felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag ef.

78. Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb o'r costau a ysgwyddir o dan y dyletswyddau presennol, ynghyd â threfniadau Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynlluniau ariannol tymor canolig ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol.

79. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai'r canlynol fydd yn ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn:

- Y Byrddau Iechyd Lleol
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Llywodraeth Cymru

Costau i'r Byrddau Iechyd Lleol

80. Mae'r Byrddau Iechyd Lleol o'r farn na fydd unrhyw newid cynyddrannol sylweddol mewn costau yn sgil symud i drefniant cynllunio tymor canolig. O ystyried yr amserlen garlam, nid oedd gan y Byrddau Iechyd Lleol lawer o amser i gynnal ymarferiad amcangyfrif gorau lefel uchel.

Cost i'r Byrddau Iechyd Lleol a godir gan Swyddfa Archwilio Cymru

81. Mae dyletswydd gyfreithiol ar Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal archwiliad blynyddol o gyfrifon pob Bwrdd Iechyd Lleol a chodi tâl ar bob Bwrdd Iechyd Lleol am y gwaith.

82. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno ei hamcangyfrif gorau o'r gost a ysgwyddir wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gan gynnwys costau llunio adroddiad naratif. Mae'n costio £252,571 i gwblhau archwiliad blynyddol a

llunio adroddiad ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol. Mae hyn yn golygu cost flynyddol o tua £1,768,000 ar gyfer yr holl Fyrddau Iechyd Lleol.

Costau i Lywodraeth Cymru

Mae **Atodiad 3** yn nodi'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adolygu, cyhoeddi a gweithredu'r Fframwaith Cynllunio Integredig. Caiff Fframwaith Cynllunio ei adolygu a'i gyflwyno bob blwyddyn i sefydliadau'r GIG, ac mae'n nodi'r cyd-destun a'r gofynion i'w hystyried ar gyfer Cynlluniau Integredig Blynyddol sefydliadau, ac ers 2013/14, eu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig.

83. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 yn perthyn i dri phrif gategori:

- Costau adolygu'r fframwaith.
- Y costau sy'n gysylltiedig â chraffu ar y cynlluniau.
- Y costau sy'n gysylltiedig â'r anghenion datblygu er mwyn ymateb i'r fframwaith.

84. Wrth symud tuag at Gynlluniau Integredig Tymor Canolig, mae angen adolygu a datblygu'r fframwaith yn fwy nag arfer yn 2013-14. Bydd y broses yn cynnwys yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfan, ac os oes angen, Adrannau allweddol eraill fel Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae gwaith ymgysylltu o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn cynrychioli holl ofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau'r GIG.

85. Caiff y fframwaith ei adolygu a'i ddatblygu dros gyfnod o dri mis (Gorffennaf – Medi) trwy ddull prosiect, felly mae'r costau yn gostau cyfle sy'n cael eu hamcangyfrif ar sail cyfraniadau a ragwelir gan aelodau timau prosiect yn ystod y cyfnod hwnnw:

- 80% o swyddog Gradd 6.
- 10% o x 15 swyddog Gradd 6/7.

86. Ar y sail hon, amcangyfrifir mai tua £50,000 yw'r gost untro o ddatblygu ac adolygu'r fframwaith yn 2013-14. Fel rhan o'r ymarfer hwn bydd y Cyfarwyddwyr yn cadw golwg ar y gwaith ac yn ei lywio, ac mae'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'u gwaith hwy wedi'u cynnwys yn y gost a amcangyfrifir uchod.

87. O safbwynt craffu ar y cynlluniau, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau capasiti allanol er mwyn helpu i adolygu a chraffu ar y cynlluniau integredig ar gyfer y cyfnod 2014-15 i 2016-17 (Cynlluniau Tymor Canolig 2013/14) a mis Ionawr 2014 (cynlluniau Tymor Canolig 2014/15). Nid yw union gwmpas a chylch gwaith y capasiti allanol wedi'u penderfynu eto, ond bydd yn cynnwys asesiad holistaidd o'r cynlluniau yn hytrach na dim ond yr elfennau ariannol a gwaith a gynlluniwyd ar wahân i'r Bil. Amcangyfrifir y bydd

y gost untro rhwng £50,000 a £75,000 ar gyfer asesiadau mis Hydref a mis Ionawr. At ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, yr amcangyfrif gorau yw pwynt canol yr ystod hon.

88. Bydd angen datblygu gallu Byrddau Iechyd Lleol i adolygu'r fframwaith cynllunio tymor canolig integredig. Mae'r angen i ddatblygu sgiliau a gallu cynllunio Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn berthnasol, waeth beth yw'r newidiadau i'r drefn ariannol. Mae pecyn cyfleoedd datblygu yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys rhywfaint o ddysgu ar y cyd ar draws sefydliadau'r GIG yn ogystal â dysgu gan sefydliadau eraill. Mae union fanylion y gofynion dysgu yn parhau i gael eu hystyried, ond mae'n annhebyg y bydd costau hwyluso a datblygu'r rhaglen yn fwy na £10,000. Bydd pecynnau a dulliau dysgu sydd eisoes yn bodoli yn cael eu defnyddio a'u cydgysylltu, a rhoddir blaenoriaeth i gysylltiadau â rhaglenni datblygu sydd eisoes yn bodoli. Mae Academi Cymru yn cynorthwyo â hyn.

89. Er enghraifft, un o'r meysydd datblygu allweddol yw gallu Byrddau i graffu. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn i adolygu rhaglenni datblygu'r Byrddau dan arweiniad Academi Cymru, a bydd y gofynion o safbwynt craffu ar y Cynlluniau Tymor Canolig yn llywio'r gwaith hwn. Bydd y gwaith hwn yn parhau ar wahân i'r Bil.

90. Amcangyfrifir mai £1.89m fydd cyfanswm costau Opsiwn 1 yn 2013-14. Mae tua £122,500 o'r gost hon yn gost untro sy'n gysylltiedig â newid i Gynlluniau Integredig Tymor Canolig, a disgwylir i weddill y costau godi bob blwyddyn. Bydd y cyllidebau presennol yn talu am y costau hyn.

Tabl 3. Crynodeb o'r costau pontio a'r costau rheolaidd a ysgwyddir yn 2013-14 o dan Opsiwn 1

	£
Costau Pontio	
Llywodraeth Cymru	
Fframwaith	50,000
Craffu Allanol	62,500
Hyfforddi a Datblygu	10,000
Costau Rheolaidd	
Bwrdd Iechyd Lleol	
Swyddfa Archwilio Cymru	1,768,000
CYFANSWM	1,890,500

Opsiwn 2 – cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn golygu bod y ddyletswydd ariannol flynyddol yn cael ei disodli gan ddyletswydd ariannol dreigl o dair blynedd, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig a chynllunio ariannol tymor canolig.

91. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno dyletswydd ariannol dair blynedd.

Costau i'r Byrddau Iechyd Lleol

92. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Byrddau Iechyd Lleol roi eu hamcangyfrif gorau o gostau'r ddyletswydd ariannol dros 3 blynedd ariannol. Yn ôl atebion pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd, nid oedd disgwyl **unrhyw** gost ychwanegol yn sgil y newid i ddyletswydd ariannol tair blynedd, heblaw am y gofynion archwilio (gweler isod). Rhagwelir na fydd y gwariant o dan y trefniant presennol yn cynyddu gan nad yw'r gwaith i gwblhau Nodyn Datganiad a Datgelu wedi'i ddiweddarau yn y Cyfrifon Blynyddol yn sylweddol, a gellid ymdopi â'r gwaith o fewn lefelau presennol y staff cyfrifyddu ariannol.

Costau Swyddfa Archwilio Cymru a godir ar y Byrddau Iechyd Lleol

93. Mae Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn y bydd angen naratif sylweddol yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar bob Bwrdd Iechyd Lleol yn sgil cyflwyno dyletswydd ariannol dros 3 blynedd ariannol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi y bydd llunio'r naratif fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol yn costio tua £17,000. Mae hyn yn arwain at gyfanswm cost ychwanegol o £119,000 y flwyddyn.

Costau i Lywodraeth Cymru

94. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai costau ychwanegol uniongyrchol yn codi wrth gyflwyno dyletswydd ariannol dros 3 blynedd ariannol. Byddai'r costau hyn yn deillio o hysbysu pobl am y newidiadau i'r gyfraith, adolygu canllawiau a chynnal sesiynau datblygu gyda Byrddau Iechyd Lleol ar drefniadau'r ddyletswydd newydd.

95. Byddai'r costau cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn deillio o gyhoeddusrwydd ychwanegol fel rhan o'r ymgyrch gyfathrebu barhaus ar gyfer 'Law yn Llaw at Iechyd'. Byddai'n cynnwys gweithgareddau cysylltu â'r cyfryngau ar gost o £500 yn ôl yr amcangyfrif.

96. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu ac yn cyhoeddi canllawiau ar y ddyletswydd newydd ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ar gost o £2,000 yn ôl yr amcangyfrif. Bydd cyllidebau presennol Llywodraeth Cymru yn talu am y costau hyn.

97. Mae'r costau a nodwyd yn Opsiwn 1 yn berthnasol i'r opsiwn hwn oherwydd bydd y rhaglen waith yn parhau pe na bai'r Bil yn bodoli. Mae'n bosibl y bydd y pwyslais a'r cynnwys yn newid, ond bydd yr adnoddau ar gyfer cyflwyno'r newid yn aros yn gyson.

98. Mae'r costau untro ar gyfer craffu yn para hyd at fis Mawrth 2014 yn unig gan fod angen asesiadau mwy manwl o drefniadau craffu mwy hirdymor y Cynlluniau Tymor Canolig.

99. I grynhoi, ceir cost untro ychwanegol o tua £2,500 am weithgareddau cyfathrebu a datblygu canllawiau o dan Opsiwn 2, ynghyd â chost flynyddol ychwanegol o £119,000 am y gofynion archwilio ychwanegol.

Tabl 4. Crynodeb o'r costau pontio a rheolaidd a geir o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil o dan Opsiwn 2

	£
Costau Pontio 2013/14	
Llywodraeth Cymru	
Canllawiau	500
Cyfathrebu	2,000
Costau Rheolaidd 2014/15	
Bwrdd Iechyd Lleol	
Swyddfa Archwilio Cymru	119,000
CYFANSWM	121,500

100. Mae Tabl 5 isod yn crynhoi

- Y costau sylfaenol presennol a ysgwyddir ar gyfer archwiliad ariannol o gyfrifon statudol y Byrddau Iechyd Lleol, yn ôl yr hyn a amlinellir yn opsiwn 1.
- Y costau presennol er mwyn i'r fframwaith cynllunio symud o drefniant cynllunio blynyddol i drefniant cynllunio tymor canolig. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r trefniant hwn ar waith ni waeth am y ddeddfwriaeth, yn ôl yr hyn hyn a amlinellir yn opsiwn 1.
- Y costau a geir o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil, yn ôl yr hyn a amlinellir yn opsiwn 2.

Tabl 5: Crynodeb o Gyfanswm y Costau (y rhai presennol a'r rhai a geir o ganlyniad i'r Bil)

	£
Costau Sylfaenol Presennol yr Archwiliad	
Llywodraeth Cymru	
Swyddfa Archwilio Cymru	1,768,000
Y Fframwaith Cynllunio Presennol	
Fframwaith	50,000
Craffu Allanol	62,500
Hyfforddiant a Datblygiad	10,000
Bil Cyllid y GIG (Cymru)	
Y costau a geid o ganlyniad i'r Bil	121,500
CYFANSWM	2,012,000

Manteision a risgiau

Opsiwn 1 – peidio â gwneud dim a defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n nodi dyletswydd ariannol flynyddol, gyda gwariant blynyddol heb fod yn fwy na'r terfyn adnoddau blynyddol, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig.

Manteision

101. Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn parhau i weithredu o fewn trefn ariannol 'diwedd blwyddyn' sefydledig sy'n cael ei deall yn dda.

Risgiau

102. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn parhau i wneud penderfyniadau tymor byr tua diwedd y flwyddyn, ac mae'n bosibl nad yw hynny er budd pennaf y gwaith o ddarparu gwasanaethau'r GIG yn y tymor hir.

Opsiwn 2 – cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn golygu bod y ddyletswydd ariannol flynyddol yn cael ei disodli gan ddyletswydd ariannol dreigl o dair blynedd, a pharhau i gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig a chynllunio ariannol tymor canolig.

Manteision

103. Gall penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar ddiwedd y flwyddyn ariannol atal gwasanaethau ac effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir i gleifion y GIG. Wrth ddileu'r ffocws ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mantais allweddol yr opsiwn hwn fyddai gwella'r gwaith o gynllunio'r gwasanaeth, y gweithlu a chyllid trwy sicrhau bod amseru'r gofynion adnoddau yn cyfateb i amserlenni'r newid gwasanaeth a throsglwyddo gwasanaethau.

104. Mae gweithredu'r Fframwaith Cynllunio Integredig a'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn fwy manteisiol na hen drefniadau'r Cynlluniau Blyneddol a Chynlluniau Ariannol Blyneddol cytbwys. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd ariannol flynyddol yn parhau yn un o amodau'r opsiwn hwn, ac mae'r gofyniad dyletswydd statudol hwn yn debygol o fod yn drech na manteision posibl cynlluniau tymor canolig, yn enwedig yn ystod ail hanner unrhyw flwyddyn ariannol.

105. Manteision posibl diwygio'r cyfyngiad statudol bob blwyddyn fyddai osgoi'r canlyniad anochel o gael archwiliad pe bai gwariant Byrddau Iechyd Lleol yn fwy na'u Terfynau Adnoddau.

106. Mae manteision Opsiwn 2 hefyd yn cynnwys newid ymddygiad a chreu diwylliant sy'n gwella'r defnydd o gynllunio ariannol tymor canolig a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio.

107. Dylai hyn arwain at lawer o'r manteision a ddaw yn sgil alinio amseriad adnoddau â chynlluniau gwasanaethau wedi'u proffilio yn y Byrddau Iechyd Lleol. Dylai hefyd ddileu un o heriau sylweddol y drefn bresennol sy'n hyrwyddo penderfyniadau tymor byr sy'n seiliedig ar y flwyddyn ariannol, nad ydynt er budd mwy hirdymor y sefydliad o bosibl.

108. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, nododd y Byrddau Iechyd Lleol nifer o fanteision y disgwylir iddynt gael eu gwireddu o ganlyniad i'r ddyletswydd newydd a'r trefniant cynllunio ariannol tymor canolig:

- Gallu i 'fuddsoddi i arbed' trwy orwario strategol mewn un flwyddyn er mwyn creu arbedion ym mlyneddodded dau a thri.
- Gallu i ganolbwyntio ar orwel cynllunio hirach, yn hytrach na chanolbwyntio ar y deuddeg mis nesaf bob amser.
- Bydd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn helpu i ddatblygu cynlluniau gwasanaeth mwy hirdymor a allai ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chynaliadwyedd ariannol lle mae'r cyfnod gweithredu yn hirach na'r cylch ariannol blyneddol. Penderfyniadau mwy cydgysylltiedig yn hytrach nag ymatebol.
- Bydd modd datblygu cynlluniau cyflawni o ansawdd gwell bob blwyddyn.
- Mae'n lleihau'r perygl o wneud penderfyniadau ar fuddsoddi ar sail meini prawf allweddol amser, h.y. cyfalaf diwedd blwyddyn.
- Amserlen fwy realistig i wella integreiddio â chynlluniau'r gweithlu a chynlluniau TGCh, a'r gwaith o'u gweithredu.

- Amserlenni mwy realistig mewn perthynas â gwella ansawdd a gwireddu manteision yn sgil gwell effeithlonrwydd a chynhyrchiant.
- Cyfateb yn well i gylchoedd cynllunio ac ariannol partneriaid eraill, e.e. Llywodraeth Leol.
- Byddai'n cefnogi datblygiad system/mesurau rheoli perfformiad mwy sefydlog ac yn cynnig cysondeb a dilyniant dros gyfnod strategol.
- Yn darparu stori gliriach a llai cymhleth ar gyfer staff a'r cyhoedd ynglŷn â chyfeiriad y daith. Bydd cynlluniau cydlynus yn helpu i gyrraedd pen y daith.
- Byddai fframwaith cynllunio integredig hirach yn cefnogi strategaethau i recriwtio ac ailgynllunio'r gweithlu a allai fod â phremiymau wedi'u blaenlwytho i ddarparu effeithlonrwydd ariannol a gwasanaethau maes o law.

Risgiau

109. Bydd goblygiadau arwyddocaol o ran cyllid ac adnoddau'n deillio o unrhyw fethiant gan Lywodraeth Cymru i gadw o fewn ei therfynau adnoddau. Nodir y prif risgiau ym mharagraffau 34-38. O dan Gyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, mae arian fel arfer yn dilyn adnoddau cymeradwy pan fydd ei angen. Byddai gorwariant arwyddocaol heb adnoddau wrth gefn cymeradwy yn golygu na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu tynnu digon o arian i lawr (o dan reolaethau terfynau arian y Trysorlys) i Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y gorwario. O ganlyniad, byddai cyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y GIG, heb adnoddau ariannol digonol i dalu'r biliau neu gostau'r gyflogres.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

110. Bydd ymestyn y ddyletswydd ariannol flynyddol i dair blynedd yn caniatáu i'r Byrddau Iechyd Lleol ganolbwyntio eu gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu penderfyniadau am y gweithlu a'u penderfyniadau ariannol dros gyfnod hwy, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at benderfyniadau gwell a'r atebion gorau. I ategu hyn, mae angen fframwaith, swyddogaeth a gwasanaeth cynllunio, ariannol a llywodraethu aeddfed ac ymatebol sy'n sylfaen i weddnewid gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy.

111. Ceir amrywiaeth o dystiolaeth i gefnogi hyblygrwydd ariannol a chynllunio ariannol tymor canolig, gan gynnwys:

- Ymchwiliad Syr Michael Lyons i Lywodraeth Leol, *'Place-shaping: a shared ambition for the future of local government'*.⁹ *"The inflexibility of the current funding system inhibits local responsiveness. In addition to my detailed analysis and recommendations on local government finance I make recommendations on other ways of improving financial flexibility, by enabling resources to better reflect local priorities and to support partnership working."*

⁹<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100407205427/http://webarchive.org.uk/wayback/archive/20070428120000/http://www.lyonsinquiry.org.uk/index.html>

- Mae erthygl a gyhoeddwyd yn *Transformations in Business and Economics*¹⁰ o dan y teitl ‘*Multi-year Budgeting as an Element of Institutional Reforms: The Experiences of European Union Countries versus Its Present-Day State in Poland*’ yn cyflwyno pwysigrwydd cyllidebu dros fwy nag un flwyddyn fel rhan o ddiwygiadau sefydliadol ym maes cyllid cyhoeddus cyfoes.
- Y Comisiwn Archwilio. *Improving medium-term financial planning: a practical guide for primary care trusts, Briefing paper*¹¹, Mai 2008. Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar adolygiad o gynlluniau cyflawni lleol a Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol.
- Mae'r Comisiwn Archwilio hefyd wedi cyhoeddi papur trafod, *World class financial management: discussion paper*. 15 Tachwedd 2005¹². Wrth ymateb i'r her o wella rheolaeth ariannol, nod y papur hwn oedd ysgogi trafodaeth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ac ymysg gweithwyr cyllid proffesiynol ynglŷn â'r safonau rheoli ariannol y dylai'r sector cyhoeddus geisio eu cyrraedd yn y tymor hwy.

112. Mae tystiolaeth ddiweddar sy'n cefnogi'r defnydd o drefniadau cynllunio integredig ar gael yn adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, ‘Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr’, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013¹³.

- Mae paragraff 70 o'r adroddiad hwn yn nodi “Yr her ar hyn o bryd yw bod angen mwy o waith gan y Bwrdd Iechyd i integreiddio a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau a'r gweithlu a chynlluniau ariannol yn llawn. Er bod y Cynllun Gweithredol yn cyfeirio at ymagwedd integredig, mewn gwirionedd nid yw cynlluniau unigol yn gwbl integredig na fforddiadwy bob amser. Hefyd, mae angen ystyried goblygiadau ariannol newidiadau a blaenoriaethau o ran gwasanaethau, a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredol yn gynnar, gan asesu'n eglur bod y cynlluniau arfaethedig yn fforddiadwy.”
- Mae argymhellion 21 a 22 yn yr adroddiad yn berthnasol hefyd, gan nodi: “Rhaid i'r Bwrdd weithredu i integreiddio a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau a'r gweithlu a chynlluniau ariannol yn llawn. Rhaid i'r Bwrdd baratoi a chymeradwyo cynlluniau cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau a chynlluniau ariannol cynaliadwy cyn dechrau blwyddyn ariannol 2014-15 sy'n dangos yn glir sut y bydd yn rheoli ac yn mynd i'r afael a phwysau ariannol.”

113. Er bod Llywodraeth Cymru eisoes yn defnyddio pwerau cyfarwyddo i gyflwyno cynllunio tymor canolig integredig, gan gynnwys cynllunio ariannol tymor canolig, prif wendid y system hon yw'r ffaith ei bod yn cael ei gweld fel

¹⁰ 9(2), pp. 418-431. 2010. <http://www.transformations.khf.vu.lt/20b>

¹¹ <http://archive.audit-commission.gov.uk/auditcommission/subwebs/publications/studies/studyPDF/3439.pdf>

¹² <http://archive.audit-commission.gov.uk/auditcommission/audit-regime/support-guidance/pages/worldclassfinancialmanagementdiscussionpaper.aspx.html>

¹³ <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=247493&ds=7/2013>

rhywbeth ategol i'r prif ofyniad, sef Cynlluniau Cyflawni Blynyddol, Cynlluniau Ariannol Blynyddol a Dyletswydd Ariannol Flynyddol. Er mwyn sicrhau bod cynllunio ariannol tymor canolig yn llwyddo a bod cleifion y GIG yn gallu manteisio ar wasanaeth mwy cynaliadwy, mae'n rhaid i ddyletswydd ariannol a gofynion cynllunio Byrddau Iechyd Lleol newid o sail flynyddol i sail tymor canolig dros 3 blynedd o leiaf.

114. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd Opsiwn 2, sef gosod dyletswydd ariannol dreigl 3 blynedd ar Fyrddau Iechyd Lleol, yn cyflwyno trefn ariannol sy'n rheoli adnoddau, gwariant a therfynau cymeradwy mewn ffordd gynaliadwy dros 3 blynedd fel rhan o drefniant cynllunio ariannol tymor canolig.

9. Asesiad o'r gystadleuaeth

115. Mae angen cynnal hidl cystadleuaeth os yw'r ddeddfwriaeth yn cael effaith ar fusnes, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol. Mae'n bosibl y bydd y polisi yn cael effaith anuniongyrchol ar fusnesau neu gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r GIG. Mae'r effaith hon yn ganlyniadol ac yn anodd ei mesur. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn rhagweld y gellir darparu mwy o wasanaethau cynaliadwy yn sgil dulliau hirdymor o gaffael a chadw staff.

116. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r hidl cystadleuaeth.

Cwestiwn	Ymateb
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni yn meddu ar fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn meddu ar o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Nac ydynt
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau na'i gilydd?	Na fyddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y sefydliad?	Nac ydyw
C6: A fyddai'r rheoliad newydd yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na fyddai
C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector?	Nac ydyw
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i bennu pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu nwyddau?	Na fyddai

Asesiadau Effaith Penodol

117. Cwblhawyd asesiadau effaith fel rhan o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Wrth adolygu'r asesiadau effaith, ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol negyddol.

118. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r Rheoliadau Dyletswyddau Cydraddoldeb sy'n benodol ar gyfer Cymru, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol wrth gynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** o ran Bil Cyllid y GIG (Cymru). Os bydd darpariaeth gwasanaethau'r GIG yn dod yn fwy cynaliadwy o ganlyniad i gynlluniau a phenderfyniadau gwell, bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar holl ddefnyddwyr y GIG.

119. Fel rhan o'r broses o sgrinio effaith polisïau, rhoddwyd ystyriaeth i bum prif ddangosydd Cynllun **Datblygu Cynaliadwy** Llywodraeth Cymru. Mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi nodi y bydd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn helpu i ddatblygu cynlluniau gwasanaeth mwy hirdymor a allai ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chynaliadwyedd ariannol os byddant yn cael eu gweithredu am gyfnod hirach na'r cylch ariannol blynyddol. Gallai hyn hyrwyddo defnydd mwy effeithlon o adnoddau trwy alluogi Byrddau Iechyd Lleol i ymrwymo i gontractau cyflenwi mwy hirdymor. Gallai hyn arwain at gontractau mwy hirdymor gyda chyflenwyr ynni hefyd, gan gynnwys y posibilrwydd o fuddsoddi i arbed mewn cyfarpar sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon. Gallai dull gweithredu mwy cynaliadwy ym maes darparu gwasanaethau hefyd effeithio ar drosiant staff trwy leihau'r angen i Fyrddau Iechyd Lleol ddefnyddio contractau cyflogaeth tymor byr neu dymor penodol oherwydd hyblygrwydd ariannol.

120. O safbwynt Byrddau Iechyd Lleol mewn ardaloedd gwledig sy'n caffael gwasanaethau ar gyfer darpariaeth y GIG, canfu asesiad sgrinio **prawfesur gwledig** y bydd y trefniadau caffael yn fwy cynaliadwy oherwydd y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gwneud penderfyniadau mwy hirdymor ar gyfer eu sefydliadau o ganlyniad i'r ddyletswydd.

121. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen asesu effeithiau'r Bil ar yr **laith Gymraeg**. Wrth ddiwygio cyfarwyddiadau, canllawiau a chylchlythyron a darparu hyfforddiant o ganlyniad i'r Bil, bydd gofyn eu hasesu, a'u cynhyrchu'n ddwyieithog, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

122. Mae adran 1(1) o Fesur **Hawliau Plant a Phobl Ifanc** (Cymru) 2011 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru (o ddechrau mis Mai 2014) roi sylw dyledus i ofynion Rhan 1 o'r Confensiwn, erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Opsiynol ar wrthdaro arfog (ac eithrio erthygl 6(2)) ac erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Opsiynol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

123. Mae Adran 1(2) o'r Mesur yn datgan, o ddechrau Mai 2012 tan ddiwedd Ebrill 2014, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi "sylw dyledus" i ofynion Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("y Confensiwn") a'r Protocolau wrth wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â darpariaeth arfaethedig sydd i'w cynnwys mewn deddfiad, fel sy'n wir yn yr achos hwn.

124. Er nad oes unrhyw ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth hon sy'n gymwys/heb fod yn gymwys ar gyfer plant yn benodol, disgwylir y bydd rhoi hyblygrwydd ariannol i Fyrddau Iechyd Lleol dros gyfnod 3 blynedd a'u galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol yn fanteisiol wrth ddarparu gwasanaethau cynaliadwy. Byddai hynny, yn ei dro, o fudd i blant fel defnyddwyr gwasanaethau'r GIG.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

124. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth trwy reoli perfformiad gweinyddol ac integredig y system gynllunio, gyflawni ac ariannol newydd. Defnyddir Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru i fesur effaith y system ar reolaeth ariannol. Cesglir data oddi wrth Fyrddau Iechyd Lleol ar unrhyw gostau a manteision o ganlyniad i'r ddyletswydd ariannol a'r fframwaith cynllunio a'r effaith ar gleifion y GIG yn sgil y gwasanaethau gwell.

Atodiad 1 – Diffiniad o Dermau

Diffiniad	Ystyr
Cyfnod 3 blynedd	Cyfnod ariannol treigl o 3 blynedd, a'r cyntaf ohonynt yn dechrau ar 1/4/2014 ac yn gorffen ar 31/03/2017.
Blwyddyn ariannol	Cyfnod 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.
Gwariant/Adnoddau	Defnyddir y geiriau hyn fel ei gilydd drwy'r Memorandwm Esboniadol hwn ac maent yn cyfeirio at ddefnyddio adnoddau trwy eu gwario, eu defnyddio neu trwy leihad yn eu gwerth.
Terfynau cymeradwy	Y "cyfanswm rheoli" – sy'n cael ei ddiffinio a'i gyhoeddi'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru fel "Terfynau Adnoddau".
Trefn Ariannol	Dogfen ffurfiol sy'n nodi'r themâu a'r gwaith amrywiol o ran cyllid, cynllunio a llywodraethu, ac yn ategu'r ddogfen Law yn Llaw at lechyd. Roedd hyn yn cynnwys Cynlluniau Integredig, Hyblygrwydd Ariannol, Dyrannu Adnoddau, Gwybodaeth Ariannol a Gwybodaeth Gyflawni, a Sicrwydd a Llywodraethu Integredig.
Cynllun Tymor Canolig Integredig	Cynlluniau integredig 3 blynedd sy'n cynnwys cynlluniau clinigol, gwasanaethau, ansawdd, gweithlu, ariannol a chyfalaf.
Fframwaith Cynllunio Integredig	Dogfen Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno cylch cynllunio GIG Cymru, rhagdybiaethau cynllunio, gofynion statudol sefydliadau'r GIG a gofynion polisi.
Rheolau Sefydlog Byrddau Iechyd Lleol	Dogfennau llywodraethu ffurfiol, yn cynnwys dogfennau fframwaith amrywiol eraill sy'n nodi'r trefniadau sy'n sail i benderfyniadau a gweithgareddau'r Bwrdd, ei Bwyllgorau, Grwpiau Cyngori a staff y GIG – ei 'dulliau gweithio'.
Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog	Elfen o'r Rheolau Sefydlog sy'n

	nodi'r drefn o reoleiddio'r trafodion a'r busnes ariannol.
Dyraniad Refeniw	Y prif gyllid a ddyrennir gan Weinidogion Cymru i alluogi Byrddau Iechyd Lleol, a thrwy hynny Ymddiriedolaethau'r GIG, i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer y trigolion.
Terfyn Adnoddau Refeniw	Cwantwm yr adnoddau refeniw a gyflwynir i Fyrddau Iechyd Lleol yn unol â hysbysiad Llywodraeth Cymru.
Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol	Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol yn unol â diffiniad a mesur Llawlyfr Cyfrifon Byrddau Iechyd Lleol.
Terfyn Adnoddau Cyfalaf	Cwantwm yr adnoddau cyfalaf a gyflwynir i Fyrddau Iechyd Lleol yn unol â hysbysiad Llywodraeth Cymru.
Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau	Y fframwaith cyfrifyddu sy'n seiliedig ar groniadau ac sy'n berthnasol i gyrff "Llywodraeth Ganolog" yn unol â diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
Fframwaith Cyflawni	Mae'r Fframwaith Cyflawni yn cyflwyno fframwaith clir ar gyfer gwasanaethau, o ran gofynion, cymorth, dwysáu ac ymyrraeth.
Cyfarwyddyd Gweinidogol	Mae Deddf y GIG (Cymru) 2006 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i gyrff y GIG ar sut maent yn cael eu sefydlu a'u rheoleiddio a sut y dylent gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo iddynt. Mae modd cyhoeddi cyfarwyddiadau mewn offeryn statudol (h.y. rheoliad, gorchymyn ac ati), mewn llythyr neu mewn unrhyw gyfarwyddyd ysgrifenedig arall. Mae modd ei gyhoeddi ar ffurf canllawiau hefyd. Mae dyletswydd gyfreithiol ar gyrff y GIG i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Cyhoeddir cyfarwyddiadau ar gyfer gyrff y GIG mewn Llythyr Gweinidogol gan amlaf.

Atodiad 2 – Cymhwyso'r Ddyletswydd yn Ymarferol

1. I ddangos sut y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chymhwyso, cyflwynir y cerrig milltir allweddol canlynol fel rhan o fframwaith cynllunio'r Byrddau Iechyd Lleol:
 - I gychwyn, byddai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r cylch cynllunio, yn cyhoeddi Rhagdybiaethau Cynllunio Adnoddau a ffigurau'r Gofyniad Adnoddau Refeniw sylfaenol cychwynnol fel y gallai'r Bwrdd Iechyd Lleol eu hystyried wrth ddatblygu a chwblhau ei Gynllun Tymor Canolig Integredig a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.
 - Datblygir y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn unol â'r Fframwaith Cynllunio Integredig, y Fframwaith Cyflawni a'r adnoddau sydd ar gael.
 - Dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol ddatblygu, cwblhau a chymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd, cyn dechrau blwyddyn gyntaf cyfnod y cynllun.
 - Byddai Llywodraeth Cymru'n adolygu a chymeradwyo'r cynllun cytbwys yn ffurfiol.
 - Byddai Llywodraeth Cymru'n gweithredu ar yr hyblygrwydd ariannol cymeradwy, a nodir yn y cynllun cymeradwy, rhwng blynyddoedd trwy Addasiadau Terfyn Adnoddau Refeniw Adenilladwy.
 - Pe na bai Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r cynllun, byddai pwerau dwysáu ac ymyrryd yn dod i rym a allai olygu na fydd unrhyw adnoddau hyblyg ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol. Byddai mynediad i Derfyn Adnoddau Refeniw Adenilladwy yn amodol ar gael cymeradwyaeth ar gyfer cynlluniau a gyflwynir, felly pe na bai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, byddai'n annhebygol y byddai'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu cael mynediad i hyblygrwydd Terfyn Adnoddau Refeniw Adenilladwy.

Blwyddyn 1

2. Gan ddefnyddio cerrig milltir y fframwaith cynllunio ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol Enghreifftiol, mae'r senarios canlynol yn esbonio beth fydd yn digwydd ar ddiwedd Blwyddyn 1:

Tabl 1: Bwrdd Iechyd Lleol Enghreifftiol – Cynllun Cymeradwy a Gwariant Blwyddyn 1 yn unol â'r Cynllun

	2014/15	2015/16	2016/17
Gofyniad Adnoddau Refeniw Sylfaenol	£1,000m	£1,000m	£1,000m
Gwariant Arfaethedig a Gymeradwyir gan y Bwrdd	£1,005m	£998m	£997m
Tanwariant / (Gorwariant)	(£5m)	+£2m	+£3m

Arfaethedig yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw			
--	--	--	--

3. Wrth adolygu a chymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddeall a bod yn ffyddiog y gall y Bwrdd Iechyd Lleol reoli maint y newid mewn lefelau gwariant rhwng y blynyddoedd (yn yr achos hwn, y gostyngiad o £7m rhwng £1,005m yn 2014/15 a £998m yn 2015/16)

Tabl 2: Enghraifft 1-, canlyniad Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

	2014/15	2015/16	2016/17
Gofyniad Adnoddau Refeniw Sylfaenol	£1,000m	£1,000m	£1,000m
Terfyn Adnoddau Refeniw Adenilladwy	£5m	(£2m)	(£3m)
Terfyn Adnoddau Refeniw Addasedig	£1,005m	£998m	£997m

4. Gan ddefnyddio'r Bwrdd Iechyd Lleol Enghreifftiol, dangosir canlyniadau alldro diwedd blwyddyn arfaethedig yn y senarios canlynol:

Senario 1 – Gwariant Gwirioneddol 2014/15 £1,005m

Gwariant Gwirioneddol 2014/15 £1,005m

- Mae'r gwariant gwirioneddol o fewn Terfyn Adnoddau Refeniw Addasedig Blwyddyn 1 – a nodir fel tanwariant yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw yn Natganiad o Wariant Net Cynhwysfawr Cyfrifon Blynyddol 2014/15.
 - Ni ystyrir y Ddyletswydd Ariannol Dreigl 3 Blynedd yn 2014/15.
5. Byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau y byddai'r nodiadau datgelu tryloyw priodol yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifon Blynyddol y sefydliad er mwyn adlewyrchu'r canlynol:
- Bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys y Bwrdd Iechyd Lleol.
 - Y cysylltiad rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys cymeradwy a Therfyn Adnoddau Refeniw Addasedig Blwyddyn 1.
 - Y perfformiad gwirioneddol yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw Addasedig Blwyddyn 1.
 - Mae'r perfformiad gwirioneddol yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys.
6. Yn y senario hwn, ni fyddai'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru adolygu ac adrodd ar Ddyletswydd Ariannol Blwyddyn 1, er y byddai'n cyhoeddi adroddiad naratif.

Senario 2 – Cynllun Cymeradwy a Gwariant Blwyddyn 1 nad yw'n unol â'r Cynllun

Gwariant Gwirioneddol 2014/15 o £1,006m yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw Addasedig Blwyddyn 1 o £1,005m

Gwariant Gwirioneddol 2014/15 £1,006m

- **Nid yw'r** gwariant gwirioneddol o fewn Terfyn Adnoddau Refeniw Addasedig Blwyddyn 1 – a nodir fel **gorwariant** yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw yn Natganiad o Wariant Net Cynhwysfawr Cyfrifon Blyneddol 2014/15.
 - Ni ystyriwyd y Ddyletswydd Ariannol Dreigl 3 Blynedd yn 2014/15.
7. Byddai nodiadau datgelu tryloyw priodol yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifon Blyneddol y sefydliad er mwyn adlewyrchu'r canlynol:
- Bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys y Bwrdd Iechyd Lleol.
 - Y cysylltiad rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys cymeradwy a Therfyn Adnoddau Refeniw Addasedig Blwyddyn 1.
 - Y perfformiad gwirioneddol yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw Addasedig Blwyddyn 1.
 - **Nid yw'r** perfformiad gwirioneddol yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys.
 - Datgelu'r rheswm pam nad yw'r perfformiad yn unol â'r cynllun cymeradwy, a nodi camau ar gyfer gwella perfformiad ym mlyneddau 2 a 3.
8. Nid oes rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru adolygu ac adrodd ar Ddyletswydd Ariannol Blwyddyn 1. Fodd bynnag, bydd yn cyhoeddi adroddiad naratif, gan gyfeirio at y ffaith nad yw'r nodyn datgelu ar berfformiad yn unol â'r cynllun, a'r effaith bosibl ar y ddyletswydd ariannol dreigl 3 blynedd pan gaiff ei mesur ar ddiwedd 2016/17.
9. Byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried a oes angen cymryd camau o dan y broses ddwysáu ffurfiol sy'n rhan o'r fframwaith cyflawni a ddisgrifir ym mharagraff 46.

Senario 3 – Cynllun heb ei Gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol

10. Efallai na fydd Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu cwblhau Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys a chael cymeradwyaeth y Bwrdd er mwyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
11. Amlinellir cyfrifoldeb y Bwrdd dros gyflwyno a chymeradwyo'r cynllun mewn Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, a chaiff ei gynnwys yn Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol

Sefydlog y Bwrdd. Os na fodlonir y Cyfarwyddyd, bydd y canlynol yn berthnasol:

- Bydd y Bwrdd yn torri ei Reolau Sefydlog ei hun os na chaiff y cynllun ei gwblhau a'i gymeradwyo.
- Bydd gan y Cadeirydd gyfrifoldeb personol dros sicrhau bod materion a gedwir ar gyfer y Bwrdd yn cael eu trafod gan y Bwrdd yn brydlon ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog.
- Bydd gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb personol dros sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno'n brydlon i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

12. Os na fydd y gofyniad uchod wedi'i fodloni, bydd y broses ddwysáu yn cychwyn yn uniongyrchol gyda Phrif Weithredwr GIG Cymru a fydd yn penderfynu ar gamau gweithredu a all gynnwys y canlynol:

- Cyfarfod â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol, Ysgrifennydd y Bwrdd a Gweithredwyr perthnasol.
- Cyflwyno trefniadau 'mesur arbennig'.
- Adolygiad o effeithiolrwydd gweithredwyr.
- Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd.

13. Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y camau hyn yn cynnwys amserlen gaeth gyda gwaith monitro wythnosol, a dwysáu ac ymyrraeth bellach fel y bo'n briodol, gan gynnwys pwerau ymyrryd a amlinellir yn adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Senario 4 – Cynllun heb ei Gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru

14. Er bod y Bwrdd lechyd Lleol wedi cyflwyno cynllun cytbwys, efallai na fydd y cynllun cymeradwy ar waith gan fod Llywodraeth Cymru, yn dilyn adolygiad, wedi penderfynu peidio â chymeradwyo'r cynllun.

15. Gan ddefnyddio'r Bwrdd lechyd Lleol Enghreifftiol, os na fydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r cynllun, ar gyfer y senario hwn:

Tabl 3: Senario 4

	2014/15	2015/16	2016/17
Bwrdd lechyd Lleol yn cyflwyno Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys			
Gofyniad Adnoddau Refeniw Sylfaenol	£1,000m	£1,000m	£1,000m
Gwariant Arfaethedig a Gymeradwyir gan y Bwrdd	£1,005m	£998m	£997m
Tanwariant / (Gorwariant)	(£5m)	+£2m	+£3m

Arfaethedig yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw			
--	--	--	--

16. Pe na bai Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, byddai hyn yn arwain at:

Tabl 4: Senario 4,

	2014/15	2015/16	2016/17
Gofyniad Adnoddau Refeniw Sylfaenol	£1,000m	£1,000m	£1,000m
Terfyn Adnoddau Refeniw Adenilladwy	-	-	-
Terfyn Adnoddau Refeniw Addasedig	(£1,000m)	£1,000m	£1,000m

17. Byddai'r pwerau ymyrryd sydd ar gael i Lywodraeth Cymru trwy Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel y'u nodir yng nghylchlythyrau a llythyrau'r Fframwaith Cyflawni, yn berthnasol yma. Bydd y lefelau dwysáu, o lefel 1 i 4, yn amodol ar yr asesiad o gyflwr y cynllun a gyflwynwyd ac ar y camau y penderfynir bod angen eu cymryd er mwyn darparu cynllun cytbwys cadarn a phriodol. Byddai Llywodraeth Cymru'n:

- Cadarnhau gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol na chafodd y cynllun ei gymeradwyo.
- Cadarnhau y byddai Terfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1 yn aros yn £1,000m, yn amodol ar ailgyflwyno a chael cymeradwyaeth ar gynllun 3 blynedd cytbwys.
- Gofyn i'r Bwrdd ailgyflwyno cynllun 3 blynedd cytbwys o fewn mis.
- Nodi unrhyw ofynion penodol a nodwyd yn yr adolygiad o gynllun gwreiddiol y Bwrdd Iechyd Lleol ac unrhyw argymhellion ar gyfer cymorth.
- Nodi unrhyw ofynion penodol yn ymwneud â chynllun Blwyddyn 1, yn amodol ar ailgyflwyno a chael cymeradwyaeth ar gynllun 3 blynedd cytbwys.

18. Caiff perfformiad yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1 ei asesu trwy Gyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni misol, yn unol â'r Fframwaith Cyflawni, a thrwy'r Ffurflenni Monitro Ariannol misol. Byddai Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Lleol, fel Swyddog Atebol, yn rhoi'r diweddaraf i Brif Weithredwr GIG Cymru yn rheolaidd pe bai pryderon ynglŷn â chyflawni yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1, ac yn amlinellu camau unioni ac amserlen ar gyfer cymryd y camau hynny.

19. Pe bai adolygiad o gynllun a ailgyflwynwyd yn arwain at gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, byddai'r perfformiad gwirioneddol yn cyfateb i Senarios 1 a 2 uchod. Pe na bai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, byddai hyn yn arwain at broses ddwysáu yn unol â'r pwerau dwysáu ac ymyrryd hyd nes y byddai cynllun cytbwys yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo.
20. Byddai'r pwerau dwysáu ac ymyrryd a fyddai'n dod i rym o ganlyniad i Lywodraeth Cymru'n penderfynu peidio â chymeradwyo'r cynllun yn cynnwys y canlynol:
- Dwysáu o lefel cymorth i lefel ymyrraeth, lle bydd camau gweithredu'n amodol ar asesiad o ba mor agos neu bell yw'r Bwrdd Iechyd Lleol o gyflwyno cynllun cytbwys y bydd modd ei gymeradwyo.
 - Y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn ailgyflwyno'r cynllun erbyn diwedd mis Mai 2014.
 - Cadarnhad y bydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu cyfyngu i'r Gofyniad Adnoddau Refeniw sylfaenol.
 - Y byddai Llywodraeth Cymru yn amlygu diffyg cydymffurfiaeth parhaus y Bwrdd ac aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys yr effaith ar rôl y Cadeirydd a rôl y Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol.
21. Os na fydd y broses ddwysáu ac ymyrryd wedi gweithio erbyn y cam hwn, ni fydd y cynllun a ailgyflwynwyd yn cael ei gymeradwyo a chymerir camau pellach:
- Bydd Prif Weithredwr GIG Cymru yn penderfynu ar gamau ac ymyrraeth, gan gynnwys unrhyw argymhellion i'r Gweinidog mewn perthynas â phwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru trwy Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a.26-28.
 - Bydd angen i'r cynnydd o Lefel 1 i Lefel 4 yn y broses ddwysáu fod yn amserol, a byddai disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2014.
 - Mae'r egwyddorion dwysáu ac ymyrryd y dylid eu dilyn wedi'u hamlinellu yn y Fframwaith Cyflawni.
22. Hyd nes eu cymeradwyo, byddai'r adnoddau sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael eu cyfyngu i'r Gofynion Adnoddau Refeniw sylfaenol, heb unrhyw hyblygrwydd ychwanegol. Ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn dilyn dwysáu, pe na bai gan y Bwrdd Iechyd Lleol gynllun wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, byddai'r canlynol yn berthnasol:

Gwariant Gwirioneddol 2014/15

£1,005m

- Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys.
- **Nid yw'r** gwariant gwirioneddol o fewn Terfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1, ac fe'i nodir fel **Gorwariant** yn erbyn Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr Cyfrifon Blyneddol 2014/15.
- Ni ystyrir y ddyletswydd ariannol dreigl 3 blynedd yn 2014/15.

23. Byddai nodiadau datgelu tryloyw priodol yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifon Blynyddol y sefydliad er mwyn adlewyrchu'r canlynol:
- **Nid** oedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys y Bwrdd Iechyd Lleol.
 - Y perfformiad gwirioneddol yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1.
 - **Nid** yw'r perfformiad gwirioneddol yn unol â Therfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1.
 - Datgelu'r rheswm pam nad yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys y Bwrdd Iechyd Lleol ar waith, a nodi camau ac amserlen ar gyfer cael cymeradwyaeth.
 - Nid yw'r perfformiad yn unol â Therfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1 ac nid oes unrhyw gynlluniau na chamau clir wedi'u nodi ar gyfer gwella perfformiad ym mlynnyddoedd 2 a 3.
24. Nid oes rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru adolygu ac adrodd ar Ddyletswydd Ariannol Blwyddyn 1, ond byddai'n cyhoeddi adroddiad naratif, gan gyfeirio at y canlynol:
- Nid yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys cymeradwy ar waith.
 - Gan nad yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys cymeradwy ar waith, mae pryder ei bod hi'n annhebygol y bydd y ddyletswydd ariannol dreigl 3 blynedd yn cael ei chyflawni yn 2016/17, ac y byddai risg o farn amodol ar ddiwedd 2016/17.
 - Nid yw nodyn datgelu ar berfformiad yn unol â Therfyn Adnoddau Refeniw Blwyddyn 1.
25. O dan amgylchiadau lle na fydd cynlluniau cytbwys wedi'u cwblhau, eu cyflwyno neu eu cymeradwyo, bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn derbyn y Gofyniad Adnoddau Refeniw Sylfaenol, ond nid yr hyblygrwydd ychwanegol a ddarperir trwy addasu'r Terfyn Adnoddau Refeniw Adenilladwy. Ni fyddant yn gallu manteisio ar yr hyblygrwydd ariannol hyd nes y byddant wedi cyflwyno neu ailgyflwyno cynllun cytbwys cymeradwy.

Blwyddyn 2

26. Fel rhan o fframwaith cynllunio'r Byrddau Iechyd Lleol, bydd yn ofynnol i'r byrddau iechyd gyflwyno cynllun treigl tair blynedd bob 12 mis a chael cymeradwyaeth iddynt. Ym mhob blwyddyn, bydd yr amserlen a'r broses yr un fath yn union â'r hyn a nodir ar ddechrau'r atodiad hwn.
27. O ganlyniad, cyflwynir yr ail gynllun tymor canolig ar gyfer y cyfnod 2015-16 tan 17-18 i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Ionawr 2015. Bydd proses a goblygiadau senarios alldro diwedd blwyddyn amrywiol yn arwain at yr un canlyniadau â'r enghreifftiau a nodwyd ar dudalennau 39 i 45.

28. Oherwydd bod y ddyletswydd statudol newydd yn seiliedig ar brawf ôl-weithredol treigl tair blynedd, ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal prawf dyletswydd ariannol statudol ffurfiol eto ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015-16.

Blwyddyn 3

29. Ar gyfer y cyfnod 2016-17 tan 2018-19, bydd yn ofynnol i'r byrddau iechyd gyflwyno cynlluniau cymeradwy cyn diwedd mis Ionawr 2016. Unwaith eto, bydd amserlen, proses a goblygiadau senarios alldro diwedd blwyddyn amrywiol yr un fath â'r hyn a ddisgrifiwyd uchod, **ac eithrio mewn sefyllfa lle mae gwariant gwirioneddol yn fwy na'r hyn a gynlluniwyd ac a gymeradwywyd dros y tair blynedd flaenorol.**

30. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016-17, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal ei phrawf dyletswydd ariannol statudol am y tro cyntaf, ac yn gwneud hynny bob blwyddyn wedyn. Cynhelir y prawf hwn er mwyn sicrhau nad yw gwariant cyfanredol y tair blynedd ariannol flaenorol, h.y. 2014-15, 2015-16 a 2016-17 yn fwy na'r cyfanswm cyfanredol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod hwnnw.

31. Os yw gwariant cyfanredol y cyfnod tair blynedd yn fwy na'r terfyn gwariant cymeradwy cyfanredol, bydd cyfrifon blynyddol 2016-17 yn destun **barn reoleidd-dra amodol**, a bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys adroddiad naratif llawn yn y cyfrifon sy'n nodi amgylchiadau'r farn amodol a'r rhesymau drosti.

32. Byddai'r amgylchiadau penodol a arweiniodd at dorri'r ddyletswydd ariannol ac asesiad Llywodraeth Cymru o allu'r bwrdd iechyd i unioni'r sefyllfa yn pennu'r camau i'w rhoi ar waith yn unol â'r fframwaith ar gyfer cefnogaeth, dwysáu ac ymyrraeth a ddisgrifir ar dudalen 15.

NODER: Gan y bydd angen dirymu Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 049 "Dyletswyddau Ariannol Statudol Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol" a chyhoeddi Cyfarwyddyd/Cylchlythyr newydd, bydd angen cynnwys fel atodiad Broctocol wedi'i ddiweddarau ar gyfer Dwysáu ac Ymyrryd. Bydd angen i'r Atodiad newydd adlewyrchu'r ffaith y bydd y Protocol ar gyfer Dwysáu ac Ymyrryd yng nghyd-destun adolygu a chymeradwyo Cynllun Tymor Canolig 2014/15 tan 2016/17, nid dim ond Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys 2014/15 tan 2016/17. Byddai'r protocol dwysáu ac ymyrryd hwn yn broctocol cyffredin ar gyfer:

- Fframwaith Cyflawni
- Fframwaith Cynllunio Integredig
- Dyletswyddau Ariannol.

Atodiad 3 – Crynodeb o'r Mathau o Gostau

Dadansoddiad o'r Mathau o Gostau ar gyfer gwaith ychwanegol a nodwyd fel gwaith angenrheidiol o ganlyniad i'r Bil

Gall gweithgarwch perthnasol gynnwys: 1. gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio / sy'n mynd rhagddo;
2. gwaith / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i'r Bil; neu
3. y ddau.

Rhif	Gwaith	Gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio / yn mynd rhagddo ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig (IE/NAGE)	Gwaith / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i Bil Cyllid y GIG (Cymru) (IE/NAGE)	Math o Gost	Cyfnod y gost: Cost untro Cost flynyddol Cost barhaus
1	Adolygu Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd Lleol ○ Adolygu nifer fach o baragraffau			Gweinyddol	Cost untro
2	Adolygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd Lleol ○ Adolygu nifer fach o baragraffau			Gweinyddol	Cost untro
3	Adolygu Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth ○ Adolygu nifer fach o baragraffau			Gweinyddol	Cost untro
4	Adolygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth ○ Adolygu nifer fach o baragraffau			Gweinyddol	Cost untro
5	Adolygu Llawlyfr Cyfrifon y Bwrdd Iechyd Lleol ○ Adolygu a diweddarau Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ac			Gweinyddol	Cost untro

Rhif	Gwaith	Gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio / yn mynd rhagddo ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig (IE/NAGE)	Gwaith / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i Bil Cyllid y GIG (Cymru) (IE/NAGE)	Math o Gost	Cyfnod y gost: Cost untro Cost flynyddol Cost barhaus
	un Nodyn Datgelu				
6	Adolygu Llawlyfr Cyfrifon yr Ymddiriedolaeth <ul style="list-style-type: none"> Adolygu a diweddarau Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ac un Nodyn Datgelu 	I	I	Gweinyddol	Cost untro
7	Adolygu Cyfrifon Cryno'r Bwrdd Iechyd Lleol	I	I	Gweinyddol	Cost untro
8	Adolygu Cyfrifon Cryno'r Ymddiriedolaeth	I	I	Gweinyddol	Cost untro
9	Adolygu Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 049 Dyletswyddau Ariannol Statudol Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol y GIG <ul style="list-style-type: none"> Ailysgrifennu ac ailgyhoeddi'r ddogfen gyfan 	N	I	Gweinyddol	Cost untro
10	Adolygu Llythyr Dyraniad Refeniw 2013/14 <ul style="list-style-type: none"> Adolygu rhag ofn bod angen unrhyw newid 	I	I	Gweinyddol	Cost Flynyddol
11	Craffu ar Gynlluniau Tymor Canolig Integredig <ul style="list-style-type: none"> Capasiti allanol yn cael ei ystyried ar gyfer asesiad Hydref 	I	I	Adnodd Allanol	Cost untro yn y lle cyntaf, ond bydd yn cynnwys cost barhaus

Rhif	Gwaith	Gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio / yn mynd rhagddo ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig (IE/NAGE)	Gwaith / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i Bil Cyllid y GIG (Cymru) (IE/NAGE)	Math o Gost	Cyfnod y gost: Cost untro Cost flynyddol Cost barhaus
	<p>2013 o Gynllun Tymor Canolig 2013-14</p> <ul style="list-style-type: none"> • Capasiti allanol yn cael ei ystyried ar gyfer asesiad Ionawr 2014 o Gynllun Tymor Canolig 2014/15 • Trefniadau craffu mwy hirdymor i'w cadarnhau 				
12	<p>Adolygu Ffurflenni Monitro Ariannol 2013/14</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Adolygu, ond yn annhebygol o newid yn ymarferol mewn blwyddyn 	I	I	Gweinyddol	Cost Flynyddol
13	<p>Adolygu Fframwaith Cyflawni 2013/14</p> <p>Adolygu, ond yn annhebygol o newid yn ymarferol mewn blwyddyn</p>	I	N	Gweinyddol	Cost Flynyddol
14	<p>Adolygu Fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig, Canllawiau a Thempledi 2014/15 i 2016/17, gan gynnwys Fframwaith Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, Canllawiau a Thempledi 2014/15 i 2016/17</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhaglen ar waith i ddatblygu'r 	I	N	Canllawiau Newydd a datblygu sgiliau/gallu	Cost untro, ond bydd adolygu'r cynlluniau'n debygol o arwain at ddiweddarau'r fframwaith ar gyfer cynllun y flwyddyn ganlynol

Rhif	Gwaith	Gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio / yn mynd rhagddo ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig (IE/NAGE)	Gwaith / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i Bil Cyllid y GIG (Cymru) (IE/NAGE)	Math o Gost	Cyfnod y gost: Cost untro Cost flynyddol Cost barhaus
	fframwaith				
15	Adolygu Fframwaith Cyflawni GIG Cymru ar gyfer 2014/15 ymlaen <ul style="list-style-type: none"> Rhaglen ar waith i ddatblygu'r fframwaith 	I	N	Gweinyddol	Cost Flynyddol
16	Ffurflenni Monitro Perfformiad Newydd 2014/15 (rhagdybir y bydd angen y rhain i gefnogi rheoli perfformiad a monitro'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Tymor Canolig Integredig) <ul style="list-style-type: none"> Asesu'r gofyniad 	I	N	Cydymffurfio / Cynnydd Gweinyddol	Parhaus
17	Adolygu Canllawiau Cyfalaf Asesu'r gofyniad	I	I	Gweinyddol	Cost untro
18	Adolygu'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol perthnasol <ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddyd i gynnwys diweddariad o'r cyfarwyddyd Dyletswydd Ariannol a'r cyfarwyddyd Cynllunio Integredig 	N	I	Gweinyddol	Cost untro
19	Cynhyrchu canllawiau ar gyfer trefn	I	I	Canllawiau	Cost untro

Rhif	Gwaith	Gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio / yn mynd rhagddo ar gyfer cynllunio tymor canolig integredig (IE/NAGE)	Gwaith / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i Bil Cyllid y GIG (Cymru) (IE/NAGE)	Math o Gost	Cyfnod y gost: Cost untro Cost flynyddol Cost barhaus
	ariannol newydd (anstatudol) <ul style="list-style-type: none"> o l'w cynnwys fel rhan o'r diweddariad blynyddol 			Newydd	
20	'Uwchsgilio' staff Llywodraeth Cymru – codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant	N	I	Datblygu sgiliau/gallu	Cost untro
21	Cyfathrebu â'r Byrddau Iechyd Lleol a Swyddfa Archwilio Cymru	N	I	Gweinyddol	Parhaus

Atodiad 4 – Nodiadau Esboniadol

Cyflwyniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Medi 2013.
2. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno drwy roi gwybodaeth amdano. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.
4. Mae'r Bil yn creu dyletswydd i'r Byrddau Iechyd Lleol fabwysiadu trefn ariannol i reoli adnoddau, gwariant a therfynau cymeradwy mewn ffordd hyblyg dros gyfnod cyfrifyddu treigl o 3 blynedd yn hytrach na phob blwyddyn ariannol. Diben y Bil yw galluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio eu gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu penderfyniadau am y gweithlu a'u penderfyniadau ariannol a'r broses o roi hynny ar waith dros gyfnod hwy sy'n haws ei drin.
5. Mae adrannau 2(1) i 2(3) yn gynhwysol o'r Bil yn manylu ar y newidiadau penodol i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 sydd eu hangen er mwyn symud o ddyletswydd ariannol flynyddol i ddyletswydd ariannol a gaiff ei mesur dros gyfnod o dair blynedd. Ceir enghraifft o'r cyfnodau y bydd yn gymwys iddynt yn **Nhabl 1**. Ceir enghraifft o'r ffordd y bydd y ddyletswydd ariannol yn gweithredu yn **Nhabl 2**.
6. Mae adran 2(4) yn diddymu adran 176 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae adran 176 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Iechyd Lleol gynnal eu gwariant ar adnoddau o fewn terfynau adnoddau. Cynhwysir y gofyniad hwn bellach yn adran 175.

Tabl 1 – Enghraifft o sut y caiff y ddyletswydd ariannol ei hasesu dros gyfnod cyfrifyddu treigl 3 blynedd

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Aseiad o'r Ddyletswydd Ariannol						
Cyfnod Treigl 3 Blynedd			X			
				X		
					X	
						X

Bydd yr aseiad cyntaf o'r ddyletswydd ariannol yn digwydd ar ddiwedd 2016/17. (Dim ond y pedwar cyfnod cyfrifyddu 3 blynedd cyntaf y mae'r tabl hwn yn eu dangos).

Tabl 2 – Enghraifft o sut y bydd y ddyletswydd ariannol yn adran 175 fel y'i diwygiwyd yn gweithredu

Perfformiad y Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu 3 blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017

	2014/15	2015/16	2016/17	Swm cyfanredol
Costau gweithredu net	X1	X2	X3	X1+X2+X3
Terfyn Gwariant	Y1	Y2	Y3	Y1+Y2+Y3
Tanwariant/(gorwariant) yn erbyn y Terfyn Gwariant				=(Y1+Y2+Y3) -(X1+X2+X3)

Os nad yw Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwario dros ei derfyn gwariant (a bennir gan Weinidogion Cymru) yn y cyfnod cyfrifyddu treigl 3 blynedd, caiff ei asesu fel ei fod wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol.